Llawlyfr Cymhwyso
Arweinwyr Grwpiau Cerdded

Rhagair

Mae hwn yn lawlyfr o wybodaeth fydd yn eich helpu chi i symud drwy'r Cynllun Cymhwyso Arweinwyr Grwpiau Cerdded (AGC). Y bwriad ydi ategu gwybodaeth a phrofiad ymgeiswyr, hyfforddwyr ac aseswyr heb fynd i fanylion technegol. Mae yna nifer fawr o lyfrau wedi eu cyhoeddi eisoes ar yr agweddau technegol ac mae'r llawlyfr yma wedi ei lunio i gyd-fynd â nhw.

Mae'r llawlyfr wedi ei rannu'n bedair rhan:

- **Prosbectws** yn egluro sut mae rhywun yn symud trwy'r cynllun AGC o'r cyfnod cofrestru hyd at yr asesiad.
- **Maes Llafur** yn rhestru sgiliau'r Arweinydd Grwpiau Cerdded.
- **Arweiniad** i ymgeiswyr, eu hyfforddwyr a'u haseswyr ar sut i ddehongli'r maes llafur yn briodol a pharatoi ar gyfer yr hyfforddiant a'r asesu.
- **Atodiadau**'n cynnwys gwybodaeth gefndirol.

Datganiad gan Hyfforddi Arweinwyr Mynydd
Mae Hyfforddi Arweinwyr Mynydd (HAM) yn cydnabod bod cymryd rhan mewn gweithgareddau dringo, cerdded mynydd a mynydda'n gallu arwain at anaf neu hyd yn oed farwolaeth. Fe ddylai pawb sy'n mynydda, cerdded mynydd neu ddringo wybod am, a derbyn, y peryglon hynny a chymryd y cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Mae HAM wedi datblygu nifer o gynlluniau hyfforddi ac asesu gyda llenyddiaeth ategol i helpu arweinwyr i reoli'r peryglon, a'i gwneud hi'n bosib i'r rhai sy'n newydd i'r gamp gael profiadau cadarnhaol ohoni wrth ei dysgu ac wrth ddysgu am eu cyfrifoldebau.

Diolchiadau
Mae nifer fawr o bobl wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi'r llawlyfr yma drwy ddod i gyfarfodydd gweithgor Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y Deyrnas Unedig (HAMDU) a thrwy roi sylwadau manwl ac adeiladol ar y copi drafft. Hoffem ddiolch yn fawr i aelodau a staff y Byrddau Hyfforddi Cenedlaethol, i Ddarparwyr eu cyrsiau ac i'r Ymddiriedolaeth Hyfforddiant Mynydda am eu cymorth gyda'r cyhoeddiad yma.

Paratowyd y llawlyfr gan swyddogion a staff gweinyddol MLTE, MLTNI, MLTS, HAMC/MLTW a HAMDU/MLTUK.

Cyhoeddwyd gan Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y Deyrnas Unedig / MLTUK
Bwthyn Siabod, Capel Curig, Conwy, LL24 0ES
Ffôn: 01690 720272 Ffacs: 01690 720248 E-bost:info@mltuk.org
Gwefan: www.mltuk.org

Hawlfraint Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y Deyrnas Unedig / MLTUK
Diwygiad Mawrth 2007
Cedwir pob hawl

Braslun o'r Cynllun Arweinydd Grwpiau Cerdded

Profiad
Profiad personol o gerdded mynydd ac arwain grwpiau
Gweithgareddau a hyfforddiant cysylltiedig

Cofrestru
gyda HAMC/MLTW, MLTE, MLTNI, MLTS
Cyflawni'r rhagofynion

Hyfforddiant **Eithrio**
Cyflawni'r rhagofynion
Dewis a mynychu cwrs hyfforddiant

Cadarnhau
Datblygu'r sgiliau a'r profiad gafwyd
yn ystod yr hyfforddiant

Yr Asesiad

Gohirio neu Fethu **Llwyddo**

Profiad Pellach
Profiad o gerdded mynydd
Gweithio gyda grwpiau
Derbyn rhagor o hyfforddiant
Cofrestru gyda chynlluniau eraill
Ymuno â'r Gymdeithas Hyfforddi Arweinwyr Mynydd (y GHAM)

Cynnwys

Y Prosbectws

1. Cyflwyniad..... 7
2. Cwmpas y Cynllun……..... 8
3. Camau'r Cynllun …..... 9
4. Cofrestru 9
5. Hyfforddiant 9
6. Cyfnod Cadarnhau 10
7. Cymorth Cyntaf ……..... 10
8. Asesu a Dilysu..... 10
9. Eithrio o'r Hyfforddiant 11
10. Cyfle Cyfartal ……..... 11
11. Cwynion a Threfn Apelio 11
12. Profiad Pellach 12

Y Maes Llafur

1. Cymhwysedd Technegol ……..... 13
1.1 Cerdded ac Adnabod Llwybr Taith 13
1.2 Cyfeiriannu ……..... 13
1.3 Peryglon a Threfniadau Argyfwng ……..... 14
1.4 Offer ……..... 14
2. Rheolaeth Grŵp a Chyfrifoldebau'r Arweinydd …..……..….14
2.1 Cyfrifoldebau'r Arweinydd 14
2.2 Rheolaeth Grŵp ……..... 14
2.3 Gwersylla dros nos …..... 14
3. Amgylchedd yr ucheldir..... 15
3.1 Mynediad ……..... .. 15
3.2 Cadwraeth……..... 15
3.3 Gwybodaeth Amgylcheddol..... ..15
3.4 Tywydd ……..…..15
4. Gwybodaeth gefndirol……15

Arweiniad ar gyfer Ymgeiswyr, Hyfforddwyr ac Aseswyr

1. Cymhwysedd technegol ……..……. 18
1.1 Cerdded ac Adnabod Llwybr Taith..... 18
1.2 Cyfeiriannu ……. 19
1.3 Peryglon a Threfniadau Argyfwng…..... 22
1.4 Offer 24
2. Rheolaeth Grŵp a Chyfrifoldebau'r Arweinydd Grwpiau Cerdded ……..….26
3. Amgylchedd yr Ucheldir 30
4. Gwybodaeth Gefndirol 32

Atodiadau

1. Tirwedd y mae'r cymhwyster AGC yn addas ar ei gyfer ……...33
2. Diffiniad o Ddiwrnod Cerdded Mynydd yng nghyd-destun y cymhwyster AGC.. 35
3. Perthynas cymwysterau AGC, Arweinydd Mynydd a chymwysterau lleol â'i gilydd 36
4. Egwyddorion Gofal ac Asesu Risg ……..……..... 38
5. Rhaglenni cyrsiau hyfforddi ac asesu AGC 39
6. Canllawiau i Ddarparwyr..... 42
7. Rhestr ddarllen ……..... 44
8. Y Byrddau Hyfforddi cenedlaethol, HAMDU/MLTUK a'r Cynghorau Mynydda .46
9. Patrymlun Papur Arholiad AGC ar yr Amgylchedd Fynyddig …….. 48
10. Cymwysterau Mynydda'r DU ……50

Y Prosbectws

1. Cyflwyniad

Mae'r Cymhwyster Arweinydd Grwpiau Cerdded (AGC) yn gymhwyster cenedlaethol. Cafodd ei ddatblygu gan Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y DU (HAMDU / MLTUK) ac mae o'n cael ei weinyddu gan Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru (HAMC/MLTW), Mountain Leader Training England (MLTE), Mountain Leader Training Scotland (MLTS) a Mountain Leader Training Northern Ireland (MLTNI). Mae o'n rhan o Fframwaith Genedlaethol o gymwysterau i arweinwyr a hyfforddwyr mynydda, dringo a cherdded mynydd (gweler Atodiad 3).

Y cymhwyster AGC ydi'r cymhwyster ar gyfer y rhai hynny sydd am arwain grwpiau cerdded *dan amodau penodol, ar dirwedd penodol*. Mae'r cynllun yn chwaer-gynllun i'r cymhwyster Arweinydd Mynydd, sydd ar gyfer y rhai hynny sydd am arwain grwpiau cerdded *ymhob rhan* o'r DU a'r Iwerddon dan amodau haf.

Mae'r cymhwyster AGC wedi ei fwriadu hefyd ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes wedi eu hyfforddi neu eu hachredu dan un o'r nifer fawr o gynlluniau lleol neu sefydliadol sydd ar gael. Mae pob cymhwyster Hyfforddi Arweinwyr Mynydd wedi ei lunio ar gyfer pobl gydag ymrwymiad personol i'r gamp; maen nhw wedi eu seilio ar y gred bod yn rhaid i arweinydd fod â phrofiad a dealltwriaeth o beryglon cerdded mynydd a dringo er mwyn gallu sicrhau diogelwch ar y mynydd a bod ei benderfyniadau'n ddoeth a phriodol.

2. Cwmpas y Cynllun

2.1 Mae'r cymhwyster AGC yn rhoi cyfle i rywun ennill profiad a chymhwysedd technegol mewn arwain grwpiau ar deithiau cerdded ym mynyddoedd y DU ac Iwerddon dan yr amodau sydd wedi eu rhestru isod. Mae'r rhain yn llefydd sy'n cael tywydd garw ac mae gofyn i rywun allu dibynnu ar ei adnoddau ei hun – mae hwn yn ofyn sydd wedi ei adlewyrchu yn y maes llafur (gweler Atodiad 1).

Mae'r math o dir a thirwedd y mae Arweinydd Grwpiau Cerdded yn gymwys i arwain arnyn nhw fel a ganlyn:

- tir agored, uchel, diarffordd, heb ei amaethu a heb fod yn fynyddig e.e. ucheldir, rhostir, tir mawn, tir cors, bryniau.
- ardaloedd wedi eu cwmpasu gan nodweddion amlwg, daearyddol neu ddynol, e.e. ffyrdd (dydi'r cymhwyster ddim yn cynnwys ardaloedd nad oes modd eu gwahanu nhw'n hawdd oddi wrth ardaloedd mynyddig)
- ardaloedd diarffordd y mae modd eu gadael mewn mater o oriau er mwyn dychwelyd at loches neu ffordd hygyrch ('accessible').
- ardaloedd lle nad oes angen symud, yn fwriadol neu'n anfwriadol, ar lechweddau serth neu dir creigiog.

2.2 Pan fydd gan arweinwyr neu eu cyflogwyr gwestiynau neu amheuon ynghylch cwmpas a ffiniau cymhwyster fe ddylen nhw gysylltu ag Ysgrifennydd eu Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol. Gyda materion penodol megis amodau tywydd gwahanol dymhorau a chymhareb arweinydd/grŵp mewn gwahanol sefyllfaoedd mae modd iddyn nhw gysylltu hefyd am gymorth gan ymgynghorydd technegol. Yn achos y cynllun AGC fe all yr ymgynghorydd fod yn Hyfforddwr Mynydd (Cymhwyster Hyfforddwr Mynydd/MIA neu Dystysgrif Hyfforddwr Mynydd/MIC) neu'n Dywysydd Mynydd Prydeinig (TMP/BMG).

2.3 Dydi cwblhau cwrs hyfforddi ddim, ohono'i hun, yn gymhwyster.

2.4 I reoli grŵp yn effeithiol mae angen cyfuniad o gymhwysedd technegol, sgiliau arwain a phrofiad eang. Mae'r cynllun cymhwyso'n ymdrin â phob un o'r rhain. Yn y pen draw, fodd bynnag, gwaith y cyflogwr neu'r awdurdod gweithredol ydi penderfynu a ydi arweinydd yn ddigon cymwys i fod yn gyfrifol am grŵp penodol o bobl.

2.5 Mae mynediad i'r ucheldir yn dod â chyfle i brofi rhyddid, antur, harddwch a llonyddwch - mae o'n bwysig, fodd bynnag, ystyried pleserau o'r fath mewn cyd-destun ehangach. Fe ddylai arweinwyr wneud ymdrech i ddysgu eu grwpiau am faterion mynediad a chadwraeth. Ac mae'n rhaid dangos parch priodol tuag at gymunedau, tirfeddianwyr, a cherddwyr a defnyddwyr eraill yr ucheldir.

2.6 Dydi'r cynllun ddim yn hyfforddi nac yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â pheryglon y gaeaf, yn arbennig felly rhew ac eira, fel sydd i'w cael ar unrhyw adeg o'r flwyddyn bron mewn rhai ardaloedd.

2.7 Mae goruchwylio grwpiau mewn meysydd gwersylla hawdd eu cyrraedd yn rhan o'r cynllun. Dydi gwersylla mewn mannau diarffordd ac anghysbell ddim.

3. Camau'r Cynllun

Mae'r cynllun yn gofyn symud drwy'r camau canlynol:

- mynegi a datblygu diddordeb gwirioneddol mewn cerdded mynydd ac arwain grwpiau
- cofrestru gyda'r cynllun AGC
- mynychu cwrs hyfforddi AGC
- cadarnhau profiad ac adeiladu ar y sgiliau a'r technegau gafodd eu dysgu ar y cwrs hyfforddi
- mynychu cwrs asesu AGC
- parhau i ennill profiad fel cerddwr ac arweinydd (yn cynnwys mynychu cyrsiau perthnasol)

4. Cofrestru

I gofrestru ar gynllun AGC mae'n rhaid i ymgeiswyr fod ag o leiaf blwyddyn o brofiad o gerdded mynydd, ynghyd â diddordeb mewn arwain grwpiau cerdded. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn ddim iau na deunaw (18) oed. Mae angen iddyn nhw hefyd ystyried ai cymhwyster Arweinydd Grwpiau Cerdded (AGC) yntau cymhwyster Arweinydd Mynydd (AM) sydd fwyaf priodol i'w gallu a'u profiad ac i weithgareddau eu grwpiau.

5. Hyfforddiant

5.1 Cyn mynychu cwrs hyfforddi, mae'n rhaid i ymgeiswyr gofrestru ar gyfer y cynllun Arweinydd Grwpiau Cerdded a chwblhau o leiaf ugain (20) diwrnod o gerdded mynydd (gweler Atodiad 2).

5.2 Mae'n rhaid i ymgeiswyr fynychu cwrs hyfforddiant gan Ddarparwr sydd wedi ei gymeradwyo gan un o'r Byrddau Hyfforddi cenedlaethol. Mae sawl fformat i'r cwrs, yn cynnwys cyrsiau preswyl, ac maen o'n cynnwys o leiaf deg ar hugain (30) o oriau cyswllt gyda'r hyfforddwyr. Mae'r cyrsiau'n cael eu cyflwyno gan Dywysydd Mynydd Prydeinig (TMP / BMG), Hyfforddwr Mynydd (Cymhwyster Hyfforddwr Mynydd/MIA neu Dystysgrif Hyfforddwr Mynydd/MIC) neu Arweinydd Mynydd Rhyngwladol (AMR / IML) gyda staff cynorthwyol sydd wedi eu cymhwyso i lefel Arweinydd Mynydd neu uwch. Nifer fwyaf yr ymgeiswyr i bob hyfforddwr ydi chwech i un, ac mae Cyfarwyddwr y Cwrs yn cyfrannu'n ymarferol i bob cwrs. Mae rhestrau o Ddarparwyr cymeradwy a dyddiadau cwrs i'w cael o'r Byrddau Hyfforddi cenedlaethol.

5.3 Mae'r cwrs hyfforddi wedi ei lunio ar gyfer bobl sydd am fod yn arweinwyr ac yn cymryd yn ganiataol bod ymgeiswyr yn gallu cerdded mynydd. Mae o'n rhoi'r sylw mwyaf i'r sgiliau hynny y byddai ymgeisydd yn ei chael hi'n anodd eu dysgu heb arweiniad arbenigol.

5.4 Ar ddiwedd y cwrs bydd Cyfarwyddwr y Cwrs yn cwblhau'r dudalen Adroddiad Cwrs Hyfforddi yn llyfr log yr ymgeisydd ac yn gosod sticer wedi ei ddyddio a'i rifo ar y Dudalen Gymeradwyaeth. Bydd ymgeiswyr yn cael eu cynghori ynglŷn â'r sgiliau a'r profiad fydd eu hangen arnyn nhw'n ychwanegol cyn eu bod nhw'n barod i fynychu cwrs asesu. Bydd Cyfarwyddwr y Cwrs hefyd yn hysbysu'r Bwrdd Hyfforddi o bresenoldeb yr ymgeiswyr ar y cwrs a bydd y presenoldeb hwnnw'n cael ei gofnodi ar y Bas Data Hyfforddi Cenedlaethol.

5.5 Does dim angen i ymgeiswyr sydd eisoes wedi cofrestru ar gyfer a derbyn hyfforddiant Arweinydd Mynydd gymryd cwrs hyfforddi AGC - mae'r Byrddau hyfforddi'n ystyried bod ymgeiswyr o'r fath wedi derbyn hyfforddiant sy'n briodol a chyfwerth. Does dim angen i ymgeiswyr o'r math yma wneud cais i'w heithrio o hyfforddiant AGC ychwaith, ond mi fydd angen iddyn nhw ddangos bod eu profiad o gerdded mynydd yn cwmpasu'r math o dir a thirwedd y mae'r cynllun AGC yn ymdrin ag o.

6. Cyfnod Cadarnhau

6.1 Fel arfer, rhwng yr hyfforddiant a'r asesiad, mae yna gyfnod cadarnhau. Dydi o ddim yn gyfnod penodol o ran amser, ond fe ddylai fod yn ddigon hir i ymgeiswyr ailymweld â chynnwys eu cwrs hyfforddiant a dod yn hyderus yn eu gallu i arwain grwpiau dros y math o dir a thirwedd y mae'r cynllun AGC yn ymdrin ag o. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd fodloni rhagofynion yr asesiad.

6.2 Fe ddylai'r ymgeisydd fanteisio ar bob cyfle i ymarfer y sgiliau a ddysgodd yn ystod ei hyfforddiant ac fe all hyn gynnwys gweithio dan arweiniad arweinydd arall sydd â'r profiad priodol. Fe all hefyd gynnwys, gyda chymeradwyaeth y cyflogwr neu'r awdurdod gweithredol, ymarfer arwain grwpiau dan amodau haws, er enghraifft, mewn ardal gefn gwlad nad ydi o ddim yn ucheldir neu'n rhostir.

6.3 Cyn cael mynychu cwrs asesu mae'n rhaid i ymgeiswyr fod wedi cwblhau o leiaf deugain (40) diwrnod o gerdded mynydd mewn tair ardal wahanol ac ar wahân yn y DU ac Iwerddon ar dir a thirwedd y mae'r cynllun AGC yn ymdrin ag o.

7. Cymorth Cyntaf

Mae sgiliau Cymorth Cyntaf yn hanfodol ar gyfer unrhyw arweinydd ac mae'n rhaid bod â chymhwyster Cymorth Cyntaf cyfredol cyn gallu mynychu cwrs asesu AGC. Mae'n rhaid i'r cwrs Cymorth Cyntaf fod wedi cynnwys o leiaf dau ddiwrnod neu un ar bymtheg (16) awr o hyfforddiant a bod wedi ei asesu. Mae disgwyl hefyd i ymgeiswyr ymgymryd â'r elfennau hynny o hyfforddiant Cymorth Cyntaf sydd eu hangen arnynt fel Arweinwyr Grwpiau Cerdded mewn llefydd gwyllt ac anghysbell, yn cynnwys technegau argyfwng a symud pobl i fannau hygyrch a diogel. Mae hi'n gyfrifoldeb ar y rhai sy'n dal y cymhwyster AGC a/neu eu cyflogwyr i bwyso a mesur hyd a lled eu gwaith a sicrhau bod ganddyn nhw hyfforddiant a chymwysterau sy'n briodol iddo.

8. Asesu a Dilysu

8.1 Ar gwrs asesu bydd yr ymgeiswyr dan oruchwyliaeth neu mewn cysylltiad â'u haseswyr am o leiaf deg awr ar hugain (30 awr). Mae ymgeiswyr yn cael eu profi ar ofynion y maes llafur ac o'r herwydd mae angen iddyn nhw sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd â phob agwedd ohono cyn mynychu'r cwrs. Mae pawb sy'n darparu cyrsiau asesu wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd Hyfforddi cenedlaethol. Mae pob aseswr wedi ei gymhwyso i lefel Cymhwyster Hyfforddwr Mynydd neu uwch ac yn cyfarwyddo ei gyrsiau gyda staff ategol sydd â chymhwyster Arweinydd Mynydd neu uwch. Y nifer fwyaf o ymgeiswyr i bob aseswr ar gwrs asesu ydi pedwar ac mae Cyfarwyddwr y Cwrs yn cyfrannu'n ymarferol i bob cwrs. Mae rhestrau o Ddarparwyr cymeradwy a dyddiadau cwrs i'w cael o'r Byrddau Hyfforddi cenedlaethol.

8.2 Mae Cyfarwyddwr y cwrs asesu'n dilysu llyfr log yr ymgeisydd gyda thudalen adroddiad asesu ac yn gwneud argymhellion priodol. Mae ffurflen adroddiad y cwrs asesu'n cael ei yrru i swyddfa'r Bwrdd Hyfforddi perthnasol, lle mae'r canlyniad yn cael ei gadarnhau a'i ychwanegu at y Bas Data Hyfforddi Cenedlaethol.

Mae yna dri chanlyniad posib:

Llwyddo: i'w gyflwyno pan fydd ymgeisydd yn dangos fod ei wybodaeth a'i allu i gymhwyso'r maes llafur i'w waith arwain yn gywir a bod ganddo'r profiad a'r priodoleddau angenrheidiol i fod yn arweinydd grwpiau cerdded.

Gohirio: i'w gyflwyno pan na fydd ymgeisydd yn bodloni pob un o ofynion y maes llafur. Bydd yr aseswr yn nodi ei argymhellion ar y dudalen Adroddiad Asesu (ac ar dudalennau ychwanegol os oes angen) ac yn esbonio pa hyfforddiant neu brofiad ychwanegol sydd ei angen a pha ffurf ddylai'r ailasesiad ei gymryd.

Methu: i'w gyflwyno pan na fydd perfformiad yr ymgeisydd wedi cyrraedd y safon neu os nad ydi o wedi dangos y profiad neu'r priodoleddau angenrheidiol. Bydd yr aseswr yn nodi ei argymhellion ar y dudalen Adroddiad Asesu (ac ar dudalennau ychwanegol os oes angen) ac yn esbonio pa hyfforddiant neu brofiad ychwanegol sydd ei angen cyn i'r ymgeisydd ymgymryd ag asesiad pellach.

8.3 Pan fydd aseswr yn gohirio cymhwyso ymgeisydd bydd yr ymgeisydd yn cael ei annog i ddychwelyd at yr un aseswr ar gyfer ei ailasesiad. Mae hawl gan yr ymgeisydd, serch hynny, i ddewis cael ei asesu gan unrhyw Ddarparwr Asesu cymeradwy. Mae'n rhaid aros tri mis cyn sefyll ailasesiad o waith ymarferol ac os ydi'r ymgeisydd yn methu dau ailasesiad mae'n rhaid iddo ddechrau'r broses asesu unwaith eto o'r dechrau. Mae'n rhaid cwblhau pob ailasesiad o fewn pum mlynedd i'r asesiad gwreiddiol.

9. Eithrio o'r Hyfforddiant

9.1 Ar ôl cofrestru ar gynllun cymhwyster AGC mae gan ymgeiswyr sydd â phrofiad helaeth o gerdded neu arwain grwpiau mewn ardaloedd cerdded mynydd, neu sy'n credu eu bod nhw eisoes wedi derbyn hyfforddiant sy'n gyfwerth â hyfforddiant AGC, hawl i wneud cais i gael eu heithrio o hyfforddiant AGC. Mae ymgeiswyr sydd wedi mynychu cwrs Arweinydd Mynydd yn cael eithrio heb orfod gwneud cais. Mae pawb yn cael ei asesu – does neb yn cael ei eithrio o asesiad.

9.2 I wneud cais eithrio mae'n rhaid i ymgeiswyr:

- gofrestru gyda'r cynllun cymhwyso AGC
- gwblhau ffurflen eithrio
- anfon y ffi briodol a chopi o dudalennau profiad eu llyfr log at eu Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol

Mae angen caniatáu o leiaf pymtheg (15) diwrnod gwaith ar gyfer cwblhau'r broses eithrio.

10. Cyfle Cyfartal

Mae'r Byrddau Hyfforddi wedi ymrwymo i hyrwyddo egwyddorion Cyfle Cyfartal i bawb sy'n cerdded mynydd, yn dringo neu'n mynydda. Mae disgwyl i bob ymgeisydd, hyfforddwr ac aseswr ddangos agwedd gadarnhaol tuag at egwyddorion Cyfle Cyfartal a gosod esiampl dda wrth ymdrin â materion yn ymwneud â nhw.

11. Cwynion a Threfn Apelio

11.1 Mae'r cynllun AGC yn destun monitro parhaus ac yn cael ei adolygu'n ffurfiol unwaith bob pedair blynedd. Fe ddylai ymgeiswyr sydd am adrodd yn ôl o'u cyrsiau gyflwyno'u hadborth ar ffurf sylwadau ysgrifenedig i Ddarparwr y cwrs neu i'r Bwrdd perthnasol.

Os ydi ymgeisydd yn dymuno gwneud cwyn, am ba bynnag reswm, ynglŷn â'i hyfforddiant neu ei asesiad yna fe ddylai gysylltu â Chyfarwyddwr y Cwrs neu'r swyddog Hyfforddi Arweinwyr Mynydd perthnasol.

Os ydi ymgeisydd yn teimlo bod ei asesiad, neu agweddau ohono, wedi bod yn annheg:

- fe ddylai gysylltu â Darparwr ei gwrs, egluro ei bryderon iddo a cheisio cael esboniad o beth ddigwyddodd.
- neu, os nad ydi hynny'n datrys y broblem, fe ddylai gysylltu ag Ysgrifennydd ei Fwrdd Hyfforddi am gyngor.

Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw apêl ar ddu a gwyn o fewn trigain (60) diwrnod i ddiwedd yr asesiad. Bydd penderfyniad y Bwrdd Hyfforddi'n derfynol.

12. Profiad Pellach

12.1 Mae'n rhaid i'r rhai sydd wedi ennill cymhwyster AGC ddilyn Canllawiau Cenedlaethol HAMDU / MLTUK (gweler www.mltuk.org). Mae'n rhaid deall yn arbennig nad ydi'r cymhwyster ond yn ddilys o fewn cwmpas y cymhwyster ac os oes gan y deiliad brofiad perthnasol ac wedi ei gofnodi. Mae sicrhau bod arweinwyr yn diweddaru eu hyfforddiant yn gyfrifoldeb darparwr y gwasanaeth, neu'r unigolyn ei hun os ydi o'n arweinydd hunangyflogedig.

12.2 Un ffordd gymeradwy o dderbyn hyfforddiant pellach perthnasol ac o wybod y diweddaraf ynglŷn â datblygiadau'r gwahanol gymwysterau, yn cynnwys y cymhwyster AGC, ydi drwy ddod yn aelod o'r GHAM, y Gymdeithas Hyfforddi Arweinwyr Mynydd (MLTA).

12.3 Nod y GHAM ydi sicrhau cyfathrebu da rhwng arweinwyr mynydd a'r Byrddau Hyfforddiant fel bod ei haelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau ym maes hyfforddiant mynydd. Mae'r Gymdeithas yn gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth ar y we a hyfforddiant ymarferol mewn gwahanol lefydd drwy'r DU a'r Iwerddon.

12.4 Mae aelodaeth o'r GHAM yn agored i unrhyw un sydd wedi cofrestru ar gyfer unrhyw un o'r gwobrau sy'n cael eu gweinyddu gan Hyfforddi Arweinwyr Mynydd h.y. AGC, AM haf a gaeaf, Cymhwyster Dringen Sengl, ac sydd hefyd yn aelod o un o'r Cynghorau Mynydda.

12.5 Mae'n bosib ymuno a'r GHAM wrth ymaelodi ag unrhyw un o Gynghorau Mynydda'r DU neu'r Iwerddon, wrth gofrestru ar gyfer unrhyw un o'r cymwysterau, neu ar-lein ar www.mlta.co.uk.

12.6 Er mwyn i gymhwyster AGC parhau'n ddilys, mae'n rhaid cadw'r cymhwyster Cymorth Cyntaf yn gyfredol hefyd.

Maes Llafur

I weithredu'n effeithiol fel Arweinydd Grwpiau Cerdded mae angen pob math o sgiliau a gwybodaeth. Mae'r sgiliau a'r wybodaeth yma'n cael eu trin ar wahân i'w gilydd; mae angen i'r Arweinydd allu eu defnyddio felly ond mae o'n hanfodol bwysig iddo allu eu cyfuno a'u defnyddio gyda'i gilydd hefyd. Mae disgwyl, er enghraifft, iddo allu rheoli ei grŵp a chyfeiriannu ar yr un pryd.

1. Cymhwyster Technegol

Er mwyn gallu arwain pobl eraill yn effeithiol yn y mynyddoedd mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatblygu cymhwysedd yn nhechnegau arwain. Mae'n rhaid iddyn nhw hefyd allu cyflwyno pobl eraill i elfennau symlaf techneg cerdded mynydd.

Cerdded a chael hyd i'r llwybr

Mae'n rhaid i Arweinwyr Grwpiau fod yn gerddwyr da a meddu ar y sgiliau canlynol:

a. y gallu i ddangos arfer da yng nghyswllt rheoli cyflymder y daith, cadwraeth (hynny yw, peidio â gwastraffu) egni a chynnal cydbwysedd a chyd-drefniant y corff

b. y gallu i adnabod peryglon a rheoli risg

c. y gallu i ddewis llwybrau addas a newid neu amrywio'r dewis hwnnw os oes yna newid yn y tywydd neu mewn amgylchiadau eraill o bwys.

ch. y gallu i ddarllen a dehongli mapiau a thirwedd.

1.2 Cyfeiriannu

Mae'r gallu i gyfeiriannu'n gymhwysedd sylfaenol i unrhyw Arweinydd Grwpiau Cerdded. Mae angen iddo allu dewis, o blith nifer o wahanol dechnegau, y dechneg sydd fwyaf priodol i'r amgylchiadau ar y pryd. Mae technegau o'r fath yn cynnwys:

a. defnyddio mapiau perthnasol, eu graddfeydd a'u symbolau confensiynol, cyfeiriadau grid, llinellau cyfuchder / cyfuchliniau (contour lines) a dulliau eraill o ddangos siâp y tir a'r dirwedd

b. adnabod nodweddion topograffig, cysylltu nodweddion map efo nodweddion tir ac fel arall

c. mesur pellter ar fap ac ar y tir

ch. adnabod lleoliad drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau adleoli

d. cyfeiriannu ar draws gwlad mewn gweledegd gwael a/neu dywyllwch drwy ddefnyddio, er enghraifft, cwmpawd neu fap ar ei ben ei hun (mae gwybodaeth o ddulliau eraill e.e. GPS yn fanteisiol)

dd. cynllunio llwybr taith a gwahanol ddulliau o gofnodi'r llwybr

1.3 Peryglon a Threfniadau Argyfwng
Mae'r gallu i wneud penderfyniadau doeth a chadarn ac i ddelio gyda pheryglon yn allu hanfodol i unrhyw un sy'n arwain grŵp. Mae o'n cynnwys:
a. y gallu i adnabod ac osgoi llechweddau serth a thir garw
b. y gallu i adnabod peryglon dŵr, yn cynnwys nentydd a chorsydd, a'r sgiliau a'r wybodaeth o drefniadau diogelwch sydd eu hangen i ddelio â nhw
c. gwybodaeth o drefniadau argyfwng ac o sut i greu bivouac os oes yna argyfwng
ch. gofynion cymorth cyntaf cyffredinol y cynllun ynghyd â dealltwriaeth o achosion, arwyddion a symptomau, ac o sut i atal a thrin ar y mynydd: cyflyrau goroeri (hypothermia) ac oerfel mynydd (exposure/mountain hypothermia), anafiadau o ganlyniad i oerfel ac anhwylderau o ganlyniad i wres.

1.4 Offer
Mae'r offer y bydd grŵp yn ei ddefnyddio'n gallu effeithio'n fawr ar lwyddiant unrhyw daith. Fe ddylai arweinwyr grŵp fod â gwybodaeth am:
a. offer cerdded personol
b. yr offer ychwanegol y mae angen i arweinydd ei gario
c. pacio a chario offer personol ac offer sydd i'w rannu gan y grŵp

2. Rheolaeth Grŵp a Chyfrifoldebau'r Arweinydd

2.1 Cyfrifoldebau'r Arweinydd
Mae gofyn i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â phrif feysydd cyfrifoldeb yr arweinydd grŵp, ac yn arbennig y meysydd hynny sy'n ymwneud â gofal a diogelwch y grŵp, hynny yw:
a. cyfrifoldeb cyffredinol - dros aelodau'r grŵp a lle'n briodol i'w rhieni/gwarcheidwaid, hefyd i'r awdurdod, pwyllgor neu reolwr sy'n trefnu'r gweithgaredd, ac i ddefnyddwyr eraill yr awyr agored a'r cyhoedd yn gyffredinol
b. cyfrifoldeb penodol - dros ddewis nodau addas, cwblhau paratoadau manwl a sicrhau bod offer pawb yn addas a'r grŵp wedi ei chyfarwyddo'n ddigonol
c. gwybodaeth o'r ddeddfwriaeth gyfredol ac o gyfrifoldeb cyfreithiol Arweinwyr Grwpiau Cerdded, yn cynnwys materion yn ymwneud â goruchwylio pobl ifanc.

2.2 Rheolaeth Grŵp
Mae gofyn i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd ag:
a. eu cyfrifoldebau wrth weithredu yn yr awyr agored, o ran rheoli grŵp yn effeithiol a chyfarfod ag anghenion y grŵp ac unigolion wrth iddyn nhw ddatblygu a newid; mae angen i'r arweinydd geisio sicrhau bod profiad pob aelod o'r grŵp yn brofiad diogel a gwerth chweil; mae angen iddo hefyd allu gwerthuso'r profiad er mwyn gwybod sut i gymell ei grŵp i gymryd rhan eto
b. defnydd a chyfyngiadau technegau goruchwylio o bell ar gyfer pobl sy'n ymgymryd ag alldaith ar dirwedd briodol (e.e. fel rhan o Wobr Dug Caeredin).

2.3 Gwersylla Dros Nos
Mae gwersylla mewn llefydd anghysbell y tu hwnt i gwmpas y cymhwyster yma, ond mae angen i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd ag:
a. lleoli a chodi pebyll a'r trefniadau diogelwch sydd ynghlwm â defnyddio gwahanol fathau o stôf
b. dewis, paratoi a choginio bwydydd addas
c. hylendid, ar raddfa bersonol ac ar raddfa grŵp
ch. trefnu a rheoli gwersyll dros nos sy'n ddiogel ac yn gyfforddus

Hefyd fe ddylai ymgeiswyr fod yn gwybod am:
a. dulliau priodol o oruchwylio grŵp
b. sut i ddewis a threfnu lle mewn hostelau, cabanau a llefydd gwersylla hawdd eu cyrraedd

3. Amgylchedd yr ucheldir

3.1 Mynediad
Mae angen i Arweinwyr Grwpiau Cerdded ddeall a bod yn gyfarwydd ag:
a. y Côd Cefn Gwlad a chanllawiau tebyg, a'r cyfrifoldeb i gadw effaith gweithgaredd ar yr amgylchedd i leiafswm
b. y ddeddfwriaeth gyfredol ynglŷn â mynediad i gefn gwlad ac ardaloedd ucheldir, natur arbennig ardaloedd dynodedig a'r cyfyngiadau sydd ar eu defnyddio nhw
c. sut a lle mae cael gwybodaeth am fynediad i ardaloedd ucheldir e.e. o lyfrynnau a mapiau priodol, ffynonellau'r Cynghorau Mynydda, fforymau mynediad lleol a chenedlaethol, a'r gwahanol asiantaethau cefn gwlad.

3.2 Cadwraeth
Mae angen i Arweinwyr Grwpiau Cerdded ddeall a bod yn gyfarwydd ag:
a. y gwahanol ffyrdd o ddefnyddio ucheldir e.e. ar gyfer ffermio, coedwigaeth, casglu a chronni dŵr, saethu grugieir, hela ceirw a champau awyr agored
b. materion cysylltiedig â chadwraeth yr ucheldir ac effaith tymor hir pwysau dynol ar ardaloedd o'r fath
c. pwysigrwydd materion yn ymwneud â chael gwared â gwastraff dynol yn yr awyr agored

3.3 Gwybodaeth Amgylcheddol
Mae angen i Arweinwyr Grwpiau Cerdded ehangu ar eu gwybodaeth o bob agwedd o'r amgylchedd mynyddig a rhosdirol e.e. o'i ddaeareg, daearyddiaeth, planhigion a bywyd gwyllt, ei hanes ac o ffotograffiaeth. Fe ddylai bod ganddyn nhw wybodaeth sylfaenol o:
a. effaith cyffredinol pobl ar amgylcheddau ucheldir
b. effaith posib hamdden awyr agored, yn arbennig felly effaith grwpiau

3.4 Tywydd
Mae'n rhaid i Arweinwyr Grwpiau Cerdded fod â gwybodaeth sylfaenol o'r tywydd. Mae'n rhaid iddyn nhw fagu profiad ymarferol o ddefnyddio rhagolygon tywydd i ddehongli tywydd ardaloedd mynyddig, a datblygu eu gallu i ragweld tywydd yr oriau nesaf o'r hyn maen nhw'n ei weld.

Mae angen hefyd iddyn nhw ddeall:
a. ffynonellau gwybodaeth am y tywydd
b. yr effaith y gall tywydd ei gael ar eu dewis o lwybr ac ar lefel gweithgaredd eu taith
c. sut mae dehongli mapiau tywydd syml

4. Gwybodaeth Gefndirol

Mae angen i ymgeiswyr fod â dealltwriaeth sylfaenol o:
a. ddatblygiad cerdded mynydd fel gweithgaredd hamdden yn y DU a'r Iwerddon
b. swyddogaeth y Cynghorau Mynydda, Hyfforddi Arweinwyr Mynydd a chyrff cysylltiedig
c. amrywiaeth y llenyddiaeth mynydda a cherdded mynydd, yn cynnwys llyfrau, arweinlyfrau, gwefannau a chylchgronau, ac o sut i gywain gwybodaeth amdanyn nhw

Arweiniad ar gyfer Ymgeiswyr, Hyfforddwyr ac Aseswyr

Cyflwyniad

Mae'r arweiniad yma i wedi ei lunio i gynorthwyo ymgeiswyr a staff cyrsiau hyfforddi ac asesu drwy fanylu ar bob agwedd o'r maes llafur a chynnig syniadau ar y ffordd orau i ymdrin â gwahanol bynciau.

Mae llwyddiant unrhyw gwrs hyfforddi neu asesu'n dibynnu ar gyfraniad y rhai sy'n ymwneud â nhw. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyrraedd lefel briodol o brofiad cyn mynychu cwrs. Yn yr un modd mae angen i hyfforddwyr ac aseswyr fod yn bobl sy'n mynydda'n gyson ac yn rheolaidd ac yn gyfarwydd â'r arferion cyfredol. Yn aml mae yna sawl ffordd o ddelio â thasg benodol, a bydd y profiad y mae pob un yn dod gydag o i gwrs yn ehangu'r posibiliadau o ran cyfleoedd dysgu.

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae angen i ymgeiswyr fod â digon o brofiad fel cerddwyr mynydd i allu mynd i'r afael â phob agwedd o'r hyfforddiant a chyfrannu'n llawn at y cwrs. Mae angen i ymgeiswyr deimlo'n rhydd i ofyn hyd yn oed y cwestiynau symlaf gan mai'r cwestiynau hynny ydi'r cwestiynau mwyaf allweddol yn aml. Fe all cadw nodiadau yn ystod y cwrs fod o fudd yn ddiweddarach gan eu bod yn rhoi cyfle i ymgeiswyr adeiladu ar y sgiliau a ddysgwyd yn ystod y cwrs.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae angen i hyfforddwyr gynorthwyo'u hymgeiswyr i fod yn arweinwyr grŵp mwy effeithiol. Er bod cyfrifoldeb ar hyfforddwyr i gadw at y maes llafur, mae disgwyl iddyn nhw hefyd drefnu eu cyrsiau fel eu bod nhw'n cynnwys ac yn ymdrin yn ystyriol â gwahanol gryfderau a gwendidau'r ymgeiswyr. Mae'r cyrsiau i ganolbwyntio ar y sgiliau hynny sy'n anodd i ymgeiswyr eu datblygu heb gymorth arbenigol – ond mae angen cofio, serch hynny, nad ydi sgiliau arwain mynydd ond yn wahanol elfennau o'r un peth mewn gwirionedd, a bod angen eu trin felly mewn cyd-destun cyfannol ('holistic').

Mae angen trafod a dadansoddi perfformiad yr ymgeiswyr gyda nhw'n unigol fel eu bod nhw, wrth adael y cwrs hyfforddiant, yn deall yn glir yr hyn sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud yn ystod y cyfnod cadarnhau. Bydd hyn yn aml yn cael ei gyflwyno i'r ymgeisydd ar ffurf cynllun gweithredu.

Nodiadau'r Aseswr

Mae aseswyr yn gwerthuso perfformiad ymgeiswyr drwy ei gymharu â gofynion y maes llafur ac yn gwneud asesiad gwrthrychol a realistig ohono yn ôl safon genedlaethol gydnabyddedig. Mae angen i gyrsiau asesu rhoi cyfle i bob ymgeisydd weithio hyd eithaf eu gallu dan amodau perthnasol. Mae angen i aseswyr sicrhau bod ymgeiswyr yn deall yr hyn y mae'r aseswyr yn ei ofyn ganddyn nhw ac yn cael digon o gyfle i ddangos eu gallu a'u cymhwysedd. Mae angen i aseswyr gofio pa mor bwysig ydi trin popeth yn ei gyd-destun, yn gyfannol ('holistic') fel petai, a chyfyngu ar yr amser sy'n cael ei roi i drafod technegau'n unigol. Mae'n rhaid i aseswyr rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar ddiwedd pob rhan o'r asesiad.

1. Cymhwysedd Technegol

1.1 Cerdded ac Adnabod Llwybr Taith

Cerdded

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae'n rhaid i ymgeiswyr allu dangos y craffter sydd ei angen i adnabod tir sy'n addas i grwpiau o fewn cwmpas y cymhwyster AGC. Mae angen i ymgeiswyr allu symud yn effeithiol dros dir o'r fath, a dangos eu bod yn dwyn i ystyriaeth gwahanol gryfderau a gwendidau aelodau eu grŵp wrth osod cyflymder y daith.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae angen i hyfforddwyr allu sicrhau bod yr ymgeiswyr yn hollol gyfarwydd â gwahanol sgiliau symud ar draws tir agored, a thrafod a defnyddio gwahanol ddulliau i drosglwyddo'r technegau cysylltiedig iddyn nhw. Mae angen gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r amrywiaeth a all fod yn lefel ffitrwydd aelodau eu grŵp ac felly o bwysigrwydd gosod cyflymder cerdded sy'n briodol.

Nodiadau'r Aseswr

Mae angen i aseswyr fod yn sicr o allu ymgeiswyr i symud yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws gwahanol fathau o dir ac i roi cyngor syml i gerddwyr dibrofiad. Mae angen i arweinydd ddangos ei fod yn deall pwysigrwydd gosod cyflymder priodol a'i fod yn gallu delio gyda phobl o wahanol allu drwy osod cyflymder sy'n briodol i'r grŵp, i'r tir ac i'r tywydd.

Cynllunio ac Adnabod Llwybr Taith

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae angen i ymgeiswyr allu defnyddio map, cwmpawd a sgiliau cyfeiriannu i gynllunio llwybr taith sy'n briodol i'w grŵp. Mae angen i'r cynllunio gynnwys ystyriaeth o allu ac uchelgais y grŵp, o natur y tir ac o ragolygon y tywydd. Mae angen ystyried hefyd yr oblygiadau sy'n deillio o'r math o oruchwylio fydd ar y daith, p'un ai'n uniongyrchol neu o bell.

Mae angen i ymgeiswyr allu adnabod peryglon posib, llwybrau amgen (i'w cymryd os ydi'r amgylchiadau'n newid) a llwybrau dianc (os oes argyfwng). Mae angen i ymgeiswyr wybod am wahanol ddulliau amcangyfrif hyd taith mewn oriau ac o sut i gofnodi llwybr taith. Mae angen iddyn nhw allu dysgu pobl eraill sut i gynllunio llwybr taith syml.

Mae angen i ymgeiswyr allu cyfuno gwybodaeth o fapiau, arweinlyfrau a ffynonellau eraill gyda'r hyn maen nhw'n ei weld ac yn ei wybod am y tir ei hun er mwyn dewis llwybrau diogel a phriodol.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae angen i hyfforddwyr drin a thrafod gyda'u hymgeiswyr y gwahanol ffactorau y mae angen i arweinwyr eu hystyried megis oed, uchelgais, gallu, maint ac anghenion arbennig eu grŵp, yr offer (personol a grŵp), y tir a'r tywydd. Mae angen i hyfforddwyr gynorthwyo eu hymgeiswyr i lunio trefn ar gyfer cynllunio a chofnodi llwybrau taith ac ar gyfer asesu risg cyn dechrau'r daith.

Mae hyfforddwyr i gynorthwyo ymgeiswyr i ddeall a dehongli'r wybodaeth sydd i'w chael o fapiau ac arweinlyfrau. Fe ddylen nhw annog ymgeiswyr i gyfuno'r wybodaeth yma gyda'r wybodaeth maen nhw'n ei gael o nodweddion y tir o'u cwmpas er mwyn iddyn nhw allu dewis llwybrau'n effeithlon.

Mae angen i hyfforddwyr wneud ymgeiswyr yn ymwybodol o oblygiadau a natur ddifrifol goruchwylio grwpiau o bell. Fe ddylen nhw sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod bod trefniadau gofalus a threfnus yn hanfodol wrth baratoi grwpiau ar gyfer teithiau fydd yn cael eu goruchwylio o bell. Mae angen cyflwyno syniadau a dulliau goruchwylio sy'n addas ar gyfer teithiau o'r fath, yn cynnwys dilyn o bell (cysgodi) a defnyddio ffôn neu radio a mannau cyfarfod penodol. Mae angen pwysleisio'r angen i baratoi a chynllunio'n ofalus.

Nodiadau'r Aseswr

Mae angen i aseswyr sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu cynllunio a chofnodi llwybr taith sy'n briodol, a bod y cynllun yn dangos ystyriaeth o natur y grŵp, y tywydd a'r amgylchiadau. Mae modd asesu sgiliau cynllunio yn y lle cyntaf gyda phapur arholiad i'w gwblhau adref neu gyda'r nos, ond mae angen i arweinwyr allu dangos hefyd eu bod yn gallu dilyn llwybr taith a ddewiswyd ganddyn nhw a'u bod yn gallu addasu llwybr eu taith yn ôl anghenion y grŵp a'r amgylchiadau.

1.2 Cyfeiriannu

Nodiadau'r Ymgeisydd

I Arweinydd Grwpiau Cerdded mae cyfeiriannu'n sgil sylfaenol. Mae o hefyd yn rhan allweddol o'r hyblygrwydd sydd ei angen arno i allu ymateb yn briodol i newidiadau yn y tywydd a'r amgylchiadau. Fe ddylai'r arweinydd allu cyfeiriannu'n effeithlon, yn gywir ac yn hyderus ac ar yr un pryd edrych ar ôl ei grŵp, osgoi peryglon a gwneud y daith yn un ddifyr. Fe ddylen nhw wybod hefyd sut i gyflwyno sgiliau sylfaenol cyfeiriannu i gerddwyr eraill.

Wrth baratoi ar gyfer y cymhwyster AGC fe ddylai ymgeiswyr geisio magu cymaint ag sy'n bosib o brofiad o gyfeiriannu ar ucheldir nad ydi o ddim yn fynyddig ond sydd yn anghyfarwydd. Mae ymarfer mewn gwahanol lefydd ac amgylchiadau'n datblygu'r gallu sydd ei angen i drefnu taith briodol ac i ddilyn llwybr y daith honno ar draws gwlad. Mae angen i ymgeiswyr ddeall bod rhostir yn wahanol iawn ei natur i fynydd-dir a bod angen weithiau defnyddio technegau cyfeiriannu gwahanol yno.

Mae angen pob math o sgìl i gyfeiriannu ac mae'r rhain wedi eu rhestru yn y maes llafur. Go brin y bydd angen pob un o'r sgiliau yma ar yr un pryd ac felly rhan fawr o grefft y cyfeiriannwr ydi dewis y dechneg fwyaf priodol i'r amgylchiadau. Er enghraifft, byddai dilyn cyfeirlin ('bearing') cwmpawd ar nodwedd dir amlwg (e.e. llwybr) mewn gweledegd da yn amhriodol - cyfeiriadu ('orientate') y map i gyd-fynd â'r tir fyddai orau yn yr achos yma. Ar y llaw arall, fe all arweinydd ddrysu wrth geisio darllen map ar dir dinodwedd ('featureless') mewn gweledegd gwael, a dilyn cyfeirlin cwmpawd gan ddefnyddio amser a/neu gamau i amcangyfri'r pellter fyddai'n fwyaf priodol yn yr achos yma. Mae'r cyfeiriannwr effeithlon yn addasu ei dechneg yn ôl gofynion y dirwedd, y tywydd a'r grŵp. Mwyaf i gyd fydd ei brofiad o gerdded mynydd, a mwyaf i gyd fydd amrywiaeth y profiad hwnnw, mwyaf i gyd fydd ei adnoddau a'i allu i wneud penderfyniadau priodol.

Mae cystadlaethau cyfeiriannu'n ddefnyddiol ac yn ymarfer hawdd ei gael. Mae nhw'n rhoi sylw sylweddol i gysylltu a dehongli map a thir, ond mae'n rhaid i ymgeiswyr gofio mai sgiliau meicro-gyfeiriannu sy'n cael eu datblygu mewn cystadlaethau o'r fath a'u bod yn pwysleisio agweddau gwahanol i'r hyn sydd ei angen wrth gerdded ar ucheldir gwyllt.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Er bod yna ddisgwyl i ymgeiswyr fod yn gyfeiriannwyr eithaf da mae o'n bosib na fydd hynny bob amser yn wir. Mae yna lawer o gerddwyr mynydd profiadol nad oes ganddyn nhw ond ychydig iawn o brofiad o gyfeiriannu mewn tywydd gwael, llawer sydd ond yn gyfarwydd â nifer cyfyngedig o dechnegau, a rhai eraill sydd ond wedi dilyn llwybrau a defnyddio arweinlyfrau.

Mae rhoi hyfforddiant ar bob un o sgiliau sylfaenol cyfeiriannu'n fuddiol. I rai mi fydd hyn yn golygu ail-wneud gwaith sydd wedi ei ddysgu eisoes, ond mae modd cyflwyno'r hyfforddiant fel patrymlun iddyn nhw ei ddefnyddio wrth ddysgu agweddau sylfaenol cyfeiriannu i'w grwpiau eu hunain. Fe ddylai hyfforddwyr ddysgu cyfeiriannu yng nghyswllt arwain grŵp, gan gynnwys elfennau dewis llwybr taith a goruchwylio grŵp, a chan gofio bod yn rhaid i'r ymgeiswyr ymdopi â chyfeiriannu ac arwain ar yr un pryd. Fe ddylai hyfforddwyr hefyd drafod sut mae cyflwyno sgiliau sylfaenol cyfeiriannu i gerddwyr eraill.

Mae angen defnyddio mapiau o wahanol fath a graddfa ar y cwrs. Mae angen annog ymgeiswyr i dalu sylw parhaus i'r tir o'u cwmpas ac i arbrofi gyda gwahanol dechnegau er mwyn gweld pa mor addas ydyn nhw i wahanol amgylchiadau. Mae hyfforddiant cyfeiriannu nos yn ddewis cyffredin pan nad ydi hi wedi bod yn bosib dysgu cyfeiriannu gweledegd gwael yn ystod golau dydd. Fe all hyfforddwyr gynnwys cyfeiriannu nos hyd yn oed os ydyn nhw wedi cyflwyno hyfforddiant gweledegd gwael gan ei bod hi'n beth digon cyffredin i rywun fod yn cerdded adre â hithau'n dechrau nosi. Serch hynny, mae angen cofio bod cyfeiriannu nos ar noson glir yn fawr anoddach na chyfeiriannu mewn golau dydd; ar y llaw arall mae cyfeiriannu mewn amgylchiadau anodd ac mewn tywyllwch yn waith caled.

Fe ddylid trafod defnydd a chyfyngiadau offer cynorthwyol, e.e. systemau lleoli byd-eang (GPS) a mesuryddion uchder, ac mae dangos sut mae defnyddio offer o'r fath mewn sefyllfa ymarferol yn gallu bod yn fuddiol.

Mae angen dysgu'r cyfeiriannu fel bod ymgeiswyr yn datblygu'n gynyddol yn ystod y cwrs hyfforddi. Fe ddylai'r ymgeiswyr orffen y cwrs yn gwybod beth ydi lefel y gallu cyfeiriannol sydd ei angen ar Arweinydd Grwpiau Cerdded a sut mae symud ymlaen i gyrraedd y safon honno.

Nodiadau'r Aseswr

Mae angen i aseswyr gynllunio'r tasgau asesu fel bod yr ymgeiswyr yn cael cyfle i ddangos eu gallu ymhob un o'r tasgau cyfeiriannu perthnasol. Mae cyfeiriannu'n agwedd fydd yn cael ei asesu drwy gydol y cwrs ac mae hyn yn rhoi cyfle i aseswyr 'dawelu nerfau' yr ymgeiswyr drwy osod tasgau cymharol syml ar y dechrau. Mae angen cyfathrebu clir a gofalus er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ynglŷn â gofynion y gwahanol dasgau asesu ac mae o'n bwysig bod ymgeiswyr yn cael cyfle i ofyn am eglurhad pellach os oes angen. Mae angen cyfarwyddo gweddill y grŵp, y rhai nad ydyn nhw'n cael eu hasesu ar y pryd, ynglŷn â'r rhan y mae disgwyl iddyn nhw ei chwarae yn ystod y dasg.

Mae angen i ymgeiswyr gael digon o amser i ddangos eu sgiliau cyfeiriannu i'r aseswr. Fe ddylen nhw gael cwblhau eu tasgau hyd eithaf eu gallu, a heb fod dan bwysau rhag ofn iddyn nhw frysio'u penderfyniadau a gwneud camgymeriadau (mae angen, serch hynny, talu sylw i'r amser y mae ymgeiswyr yn ei gymryd i gwblhau tasg). Mae angen rhoi cyfle iddyn nhw ddangos eu gallu i ddewis y dechneg fwyaf pwrpasol ar gyfer y sefyllfa dan sylw. Mae angen i aseswyr beidio â mynd ati i benodi technegau penodol ar gyfer y tasgau, ond yn hytrach gadael i'r ymgeiswyr ddefnyddio techneg o'u dewis eu hunain. Fe ddylai aseswyr edrych ar y dasg o safbwynt rhywun dan bwysau sy'n gorfod cyfeiriannu dros dir anghyfarwydd. Mae angen taro cydbwysedd rhwng meicro-gyfeiriannu, sy'n cael ei asesu'n aml mewn sefyllfa weundirol, a chyfeiriannu yn ei ystyr ehangach, fel sy'n cael ei ddefnyddio wrth ddilyn llwybr neu nodwedd tir amlwg. Mantais meicro-gyfeiriannu ydi ei fod o'n rhoi cyfle i rywun osod nifer fawr o dasgau tebyg mewn cyfnod byr o amser. Ymhob tasg a sefyllfa mae angen sicrhau nad ydi elfennau rheoli ac arwain y grŵp yn cael eu hesgeuluso.

Mae gweledegd, wrth reswm, yn ffactor sy'n dylanwadu'n fawr ar natur y dasg asesu oherwydd bod yn rhaid i aseswyr fod yn fodlon ar allu ymgeiswyr i gyfeiriannu ym mhob tywydd. Pan fydd y tywydd yn dda mae hi'n bosib gwneud i fyny am ddiffyg gweledegd gwael drwy ofyn am gyfeiriannu sy'n fwy manwl gywir. Mae'n bosibl hefyd, ar adegau o weledegd gwael, gosod tasgau cyfeiriannu nos, ond mae angen cofio nad ydi hyn o anghenraid yn gwarantu gweledegd gwael. Mae gallu'r aseswr i ddewis tir a lleoliad addas yn hanfodol i lwyddiant yr asesiad ac fe ddylai pob tasg cyfeiriannu gynorthwyo'r aseswr i ddod i gasgliad perthnasol ynglŷn â'r ymgeisydd.

Fe ddylai ymgeiswyr sy'n gwneud camgymeriadau syml gael amser i adfer y sefyllfa. Mae'r gallu i adnabod a chywiro camgymeriadau'n sgìl hanfodol i bob Arweinydd Grwpiau ac mae gwylio ymgeisydd yn delio â chamgymeriad yn rhoi gwybodaeth o bwys i'r aseswr. Fe ddylai'r ymgeiswyr allu cyfeiriannu gyda dim mwy na map a chwmpawd; mae angen defnyddio mapiau o wahanol raddfeydd yn ystod y cwrs. Os ydi ymgeisydd yn dewis cario offer ychwanegol megis offer GPS, mesurydd uchder neu debyg, mae o'n syniad edrych ar ei allu i'w defnyddio nhw. Fe all yr offer fod yn destun hyfforddiant ychwanegol i ymgeiswyr eraill. Serch hynny, mae disgwyl i bob ymgeisydd allu cyfeiriannu drwy ddulliau mwy traddodiadol, heb yr offer ychwanegol.

Fe ddylai aseswyr hefyd drafod dulliau o gyflwyno sgiliau sylfaenol cyfeiriannu i gerddwyr eraill.

1.3 Peryglon a Threfniadau Argyfwng

Mae yna nifer o beryglon y mae rhywun yn debyg o ddod ar eu traws wrth gerdded mynydd. Mae'r rhain yn cynnwys llechweddau, nentydd a chorsydd, gwyntoedd cryfion a thywydd eithafol. Ar wahan y mae eu trin nhw orau, er bod eu hosgoi neu ddelio â nhw'n gallu dibynnu ar yr un egwyddorion.

Dydi disgrifio rhywbeth fel perygl ddim yn golygu ei fod, o anghenraid, yn fygythiad uniongyrchol i unigolyn neu grŵp. Bygythiad posib ydi perygl, rhywbeth y mae angen ei reoli gan arweinydd y grŵp. Mae maint bygythiad unrhyw berygl yn amrywio yn ôl natur y tir, y tywydd a phrofiad y grŵp. Pan fydd cerddwr profiadol yn baglu ar dir gwastad dydi'r posibilrwydd o hynny'n troi'n argyfwng ddim mor fawr â phan fydd cerddwr dibrofiad yn baglu ar lechwedd gwlyb, er enghraifft. Fe all ddigwydd hefyd bod grŵp yn dod ar draws grŵp arall sydd mewn trafferthion ac angen cymorth. Felly, mae angen i arweinydd fod wedi ei baratoi'n drwyadl ar gyfer sefyllfaoedd o bob math ac ar yr un pryd gallu rhoi ei brif sylw i'w grŵp ei hun, hynny yw, mae angen i arweinydd allu ymateb i amrywiol sefyllfaoedd a sicrhau diogelwch y rhai sydd yn ei ofal ar yr un pryd.

Peryglon Llechweddau ac Ymylon Dibyn

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae yna angen amlwg i Arweinwyr Grwpiau Cerdded allu adnabod ac osgoi llechweddau serth ac ymylon dibyn. Mae llechweddau serth yn y cyd-destun yma'n golygu llechweddau anwastad gyda thyfiant ac o bosib creigiau arnyn nhw, creigiau brig (outcrops) amlwg a llechweddau serth iawn gyda thyfiant drostyn nhw. Mae gan sawl rhostir ei darren (escarpment) serth ac mae angen osgoi'r rhain wrth gynllunio llwybr taith. Mae rhostir, yn ôl ei ddiffiniad, yn ardal lle mae posib osgoi peryglon o'r fath drwy gerdded o'u cwmpas nhw.

Mae defnyddio rhaff y tu hwnt i gwmpas y cymhwyster AGC. Dydi Arweinydd Grwpiau Cerdded ddim i gymryd grwpiau i lefydd lle y gallasai bod angen defnyddio rhaff.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae angen i hyfforddwyr fynd â'r ymgeiswyr i lefydd lle mae posib iddyn nhw ddatblygu'r craffter a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain grŵp o gwmpas creigiau brig. Mae o'n bwysig gwneud hyfforddiant o'r fath ar dir sydd o fewn cwmpas y cymhwyster AGC – mae o'n bwysig diffinio hyn yn ofalus.

Fe all fod o fudd i fynd yn benodol i dir anodd er mwyn i ymgeiswyr allu adnabod a deall y bygythiad sy'n gysylltiedig â llechweddau serth. Mae gofyn bod yn ofalus wrth wneud hyn, serch hynny, ac esbonio'r peryglon yn ofalus i'r ymgeiswyr.

Nodiadau'r Aseswr

Wrth asesu agwedd yma'r maes llafur fe ddylai aseswyr edrych ar graffter a gallu ymgeiswyr o ran adnabod ac osgoi'r math yma o berygl. Ddylai'r asesiad ddim digwydd mewn lle sydd ynddo'i hun yn arbennig o fygythiol. Fe ddylai ymgeiswyr gael trin eu tasgau wrth eu pwysau ac yn dawel eu meddwl gyda digon o amser i gwblhau'r hyn sydd ei angen. Mae sgiliau rheoli megis lleoli'r grŵp fel bod yr arweinydd yn gallu ei drin a'i gyfarwyddo fo'n briodol, a'r gwahanol ddulliau o gynorthwyo rhywun heb ddefnyddio rhaff, yn werthfawr i bob arweinydd ac mae angen eu hasesu.

Er bod yna fudd i'w gael o fynd yn fwriadol i lefydd sy'n ymylu ar fod y tu hwnt i gwmpas y cymhwyster er mwyn profi craffter ymgeiswyr, fe ddylai'r pwyslais fod ar osgoi peryglon drwy ddealltwriaeth ohonyn nhw a pharatoi gofalus. Mae angen i ymgeiswyr fod â dealltwriaeth glir o'r math o dir a llefydd y maen nhw i weithredu ynddyn nhw.

Peryglon Dŵr ac Amgylcheddol

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae angen i ymgeiswyr wybod am y peryglon amgylcheddol mwyaf amlwg a sut mae osgoi neu ddelio â nhw. Mae'r peryglon yn cynnwys llifogydd, mellt, gwyntoedd cryfion a thir ansefydlog. Cynllunio gofalus ac arsylwi ydi'r ffyrdd gorau i reoli peryglon o'r fath.

Mae'n ddigon posib y bydd ymgeiswyr eisoes wedi dod ar draws rhai mathau o berygl yn ymwneud â dŵr, megis croesi nentydd a chorsydd. Does dim modd gorbwysleisio'r peryglon sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd megis croesi afonydd a ffrydiau. Fel arfer bydd maint bygythiad perygl dŵr yn gysylltiedig â chyflwr y tywydd ar y pryd. Mae gofyn i ymgeiswyr ddangos, drwy eu dewis o lwybr taith, trwy eu dehongliad o ragolygon y tywydd a thrwy arwain yn briodol, eu bod yn gallu osgoi peryglon o'r fath. Does dim disgwyl i ymgeiswyr gamu i afon neu ffrwd dan unrhyw amgylchiadau.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Fe all hyfforddwyr gyflwyno agwedd yma'r maes llafur gyda darlith neu sesiwn diwtorial ac yna cyfeirio ato pryd bynnag y bydd o'n berthnasol yn ystod y cwrs hyfforddi. Mae'r pwyslais yn ystod yr hyfforddiant i fod ar gynorthwyo ymgeiswyr, wrth iddyn nhw baratoi ac yn ystod y daith ei hun, i wneud penderfyniadau ynglŷn â pheryglon eu taith ar sail dealltwriaeth a pharatoi trwyadl. Fe all fod o fudd i roi arweiniad ymarferol neu i ddangos i ymgeiswyr, ar fap neu allan yn y maes, y math o dir sydd y tu hwnt i gwmpas y cymhwyster, a pham ei fod o felly. Fe ddylai pwyslais y cwrs fod ar adnabod y peryglon yma o flaen llaw yn hytrach nag ar roi profiad ohonyn nhw i'r ymgeiswyr.

Mae yna wahanol fathau o beryglon dŵr, er enghraifft, corsydd, nentydd ac afonydd. Fe ddylai'r hyfforddiant fod yn gyfuniad o waith theori ac ymarferion yn y maes, gyda'r pwyslais yn bendant ar osgoi peryglon, yn arbennig felly croesi afonydd. Mae o'n bwysig pwysleisio nad peryglon amlwg sefyllfaoedd o'r fath ydi'r unig rhai y mae angen eu hystyried, a bod angen cofio'n benodol yr effaith hirdymor a sylweddol y gall bod yn wlyb ac yn oer ei gael ar bobl.

Nodiadau'r Aseswr

Mae modd asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o beryglon amgylcheddol gyda phapur arholiad, trwy drafodaeth anffurfiol a gyda gwaith ymarferol, yn arbennig felly pan mae sefyllfa berthnasol yn codi. Mae angen rhoi'r brif sylw i allu ymgeiswyr i osgoi peryglon drwy baratoi'n drwyadl a dewis llwybr eu taith yn ofalus.

Trefniadau Argyfwng

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae sefyllfa o argyfwng yn gallu codi o ganlyniad i ddamwain neu o benderfyniad gwallus. Bydd arweinydd taith dan bwysau ychwanegol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le ac mae angen iddo felly fod yn glir ei feddwl ynglŷn â sut i ymateb i wahanol fathau o argyfwng. Mae o'n bwysig datblygu dealltwriaeth gytbwys o beth yn union ydi argyfwng, hynny yw, mae sefyllfa sy'n achosi oedi o rai oriau i grŵp cryf gyda'r offer priodol yn anghyfleus ac yn gallu achosi problemau trefniadol, ond dydi o byth braidd yn argyfwng. Ar y llaw arall, mae torri coes yn fater y dylid ei drin bob amser fel argyfwng.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae angen ymdrin yn fanwl â threfniadau damwain ac argyfwng. Mae angen dysgu ymgeiswyr am y gwahanol ddulliau o alw am gymorth ac ynglŷn â'r amser y mae o'n ei gymryd i weithredu gwahanol fathau o gymorth. Mae angen dysgu dulliau achub byrfyfyr fel bod ymgeiswyr yn gwybod sut i symud person o'r mynydd mewn achosion llai difrifol. Mae angen dysgu hefyd y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwersylla dros nos ar rostir o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl.

Nodiadau'r Aseswr

Mae'n bosibl asesu trefniadau argyfwng gyda chyfuniad o arholiad ysgrifenedig neu lafar a gwaith ymarferol. Mae o'n bwysig i aseswyr dderbyn bod posib cael mwy nag un ateb boddhaol i broblem. Mae trefniadau argyfwng yn faes sy'n agor ei hun i drafodaeth, yn arbennig trafodaeth ar lefel grŵp, a phan fydd gwahaniaethau barn yn codi bydd modd eu defnyddio er budd pawb o'r ymgeiswyr.

Mae angen i aseswyr fod yn hyderus ynghylch gwybodaeth yr ymgeiswyr o drefniadau argyfwng priodol ac o'u gallu i ymateb i sefyllfaoedd o'r fath.

1.4 Offer

Mae defnyddio'r offer priodol yn gallu ychwanegu'n fawr at ddiogelwch a mwynhad y grŵp. Mae'n debyg y bydd ymgeiswyr, hyfforddwyr ac aseswyr fel ei gilydd yn ymwybodol o'r dewis anferth o offer sydd ar gael ar hyn o bryd. Pan ddaw hi'n adeg dewis offer sy'n 'briodol' mae hi'n bwysig gwybod beth ydi gwahanol nodweddion y gwahanol ddewisiadau a beth ydi manteision a gwendidau'r rheiny.

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae angen i ymgeiswyr allu dangos pa mor addas ydi eu hoffer a'u dillad personol, yn arbennig y rhai hynny sydd ar gyfer tywydd garw. Mae angen iddyn nhw allu dewis, cario a defnyddio offer personol sy'n briodol i'r amgylchiadau. Mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o offer cyfredol hefyd, fel bod ymgeiswyr yn gallu cynghori pobl eraill ynghylch ei addasrwydd. Mae o'n bwysig bod gan ymgeiswyr y gallu i adnabod lleiafswm anghenion offer eu grŵp.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae o'n bwysig gwario ychydig o amser yn trin a thrafod gydag ymgeiswyr y math o offer sydd ei angen arnyn nhw. Mae angen i ymgeiswyr ddeall bod yna oblygiadau ynglŷn â'r offer personol a grŵp y maen nhw'n ei ddewis o ran diogelwch a mwynhad eu grwpiau a nhw eu hunain. Os nad oes gan ymgeisydd offer addas, fe ddylai ei hyfforddwyr gynnig cyngor iddo a thrafod yr hyn sydd ar gael. Bydd yna lawer o ymgeiswyr na fydd ganddyn nhw brofiad o arwain ac fe all fod yn briodol i hyfforddwyr ddangos eu hoffer personol a grŵp eu hunain a thrafod yr hyn y byddan nhw a hyfforddwyr eraill yn dewis ei gario.

Nodiadau'r Aseswr

Mae cwrs asesu'n cynnig sawl cyfle i archwilio addasrwydd offer personol ymgeiswyr. Mae angen edrych ar ba mor ddiogel, pa mor gyfforddus a pha mor effeithlon ydi'r offer, ond ar yr un pryd caniatáu lle i farn bersonol seiliedig ar brofiadau'r misoedd neu flynyddoedd blaenorol. Mae angen i ymgeiswyr allu gweithredu fel arweinwyr grŵp dan amodau gwael ac mae o'n bwysig eu bod nhw'n hapus gyda'u hoffer personol oherwydd yr effaith y gall hwnnw ei gael ar eu gwaith.

Mae angen profi gwybodaeth ymgeiswyr o wahanol fathau o offer, yn arbennig felly yng nghyswllt yr hyn maen nhw'n ei argymell i bobl eraill. Mae modd gwneud hynny gyda phapur arholi ysgrifenedig.

2. Rheolaeth Grŵp a Chyfrifoldebau'r Arweinydd Grwpiau Cerdded

Mae llwyddiant diwrnod ar y mynydd gyda grŵp yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau. Y llinyn cysylltiol rhwng y ffactorau yma ydi mewnbwn a dylanwad yr arweinydd. Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r gwahanol ddulliau arwain a'u haddasrwydd i wahanol sefyllfaoedd. Yn ystod yr hyfforddiant a'r asesu bydd yna bwyslais ar feithrin y craffter sydd ei angen i arwain grwpiau'n effeithiol, yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n gwneud i bob aelod o'r grŵp deimlo ei fod yn rhan o'r gweithgaredd ac yn gwybod beth mae o'n ei wneud.

Mae angen i'r rhai hynny sy'n ystyried arwain pobl, yn arbennig pobl ifanc, yn yr awyr agored fod yn ymwybodol o ofynion y gyfraith. Mae gan arweinwyr ddyletswydd ddiamheuol i ofalu am eu grwpiau, ond mae lefel y gofal yn dibynnu ar oedran a phrofiad yr aelodau. Mae'r gofal yn fwy pan mae arweinwyr yn gweithredu *in loco parentis* (yn sefyllfa'r rhiant) gyda phobl dan ddeunaw (18) oed. Mae angen i rieni a phobl ifanc ddeall bod cymryd rhan mewn gweithgareddau dringo, cerdded mynydd a mynydda'n golygu ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynnwys elfen o risg a pherygl. Mae angen eu hysbysu o hyn a sicrhau eu bod nhw'n ei ddeall ac yn ei dderbyn.

Mae yna beryglon ar rostir a bryniau na fydd cerddwyr dibrofiad o anghenraid yn eu gweld, waeth beth fo'u hoedran, ac felly mae angen cyfarwyddo grwpiau o oedolion hefyd ynghylch y math o risg y byddan nhw'n ei wynebu. Mae angen i arweinwyr ddeall y byddan nhw'n cael eu beirniadu a'u cyfrif yn esgeulus os ydyn nhw'n arwain grŵp i dir sy'n amhriodol o ran gallu eu grŵp a'u profiad nhw eu hunain.

Mae dysgu defnyddio llefydd hygyrch megis safleoedd gwersylla, hostelau a chabanau fel llefydd i aros dros nos yn un o elfennau'r cynllun cymhwyso AGC ac mae angen ei gyflwyno. Fe all y safleoedd gwersylla fod yn safleoedd sefydlog gyda chyfleusterau neu'n safleoedd anffurfiol ar dir agored ymhell o lefydd poblog lle nad oes yna gyfleusterau. Yr hyn sy'n bwysig amdanyn nhw yng nghyd-destun y cymhwyster AGC ydi eu bod nhw'n llefydd hawdd eu cyrraedd mewn cerbydau priodol.

Mae angen ymdrin â sgiliau sylfaenol gwersylla mewn cyd-destun ymarferol, yn cynnwys lleoli a chodi pebyll a defnydd diogel gwahanol fathau o stôf. Mae angen pwysleisio'r egwyddorion cyffredinol er mwyn gwneud y gwaith yn berthnasol i gymaint ag sy'n bosib o'r offer sydd ar gael.

Mae gwersylla mewn llefydd anghysbell h.y. safleoedd anffurfiol nad oes modd cyrraedd atyn nhw neu'n agos atyn nhw'n hawdd gyda cherbyd, y tu hwnt i gwmpas y maes llafur. Dydi cario offer i safle gwersyll mewn rycsac ddim yn rhan arferol o hyfforddiant AGC; os ydi Cyfarwyddwr Cwrs yn dewis gwneud hynny mae'n rhaid iddo roi digon o rybudd i'r ymgeiswyr.

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae o'n bosib y bydd yna bobl yng ngrŵp Arweinydd Grwpiau Cerdded fydd yn cael eu profiad cyntaf erioed o gerdded mynydd. Mae'r ffordd y bydd arweinydd yn gwneud ei waith yn dylanwadu'n fawr ar awydd bobl i ymwneud ymhellach â'r gamp yn y dyfodol. Mae angen i ymgeiswyr ddeall bod arwain a rheoli grŵp yn golygu mwy na rhoi cyfarwyddiadau a chymryd agwedd 'dilynwch fi'. Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r dull y maen nhw'n fwyaf cyfforddus yn ei ddefnyddio a gallu addasu'r dull hwnnw i gyd-fynd â gwahanol amgylchiadau.

Mae o'n bwysig gallu adnabod cryfderau a gwendidau gwahanol unigolion o fewn grŵp ac i gynllunio a darparu diwrnod cyfatebol. Wrth i brofiad ymgeiswyr ddatblygu, bydd gosod targedau a nodau ar gyfer aelodau eu grwpiau'n dod yn haws. Bydd ymgeiswyr yn dod yn gynyddol gyfarwydd ag asesu risg eu llwybrau taith, eu grŵpiau a'u diwrnodau ar y mynydd. Mae o'n bwysig i ymgeiswyr ddeall bod ystyried grŵp o bobl yn llai galluog nag ydi o mewn gwirionedd yn well na threfnu diwrnod sy'n ormod o her. Mae o'n bwysig hefyd i ymgeiswyr sicrhau eu bod nhw'n paratoi pob agwedd o daith yn drwyadl, yn cynnwys eu hoffer eu hunain ac offer y grŵp, llwybr y daith a chwrdd â gofynion y tywydd.

Fe ddylai ymgeiswyr geisio ennill profiad fel arweinwyr mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, amgylchiadau a lleoliadau a gyda grwpiau o wahanol fathau. Fe allen nhw wneud hyn dan oruchwyliaeth arweinydd arall sydd â'r cymwysterau priodol, mewn amgylchiadau wedi eu cymeradwyo gan eu cyflogwr neu gorff llywodraethol, neu fel aelod mwyaf profiadol grŵp o ffrindiau. Mae profiad o arwain yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ennill drwy weithio gyda phobl eraill.

Mae'n rhaid i bawb fod yn ymwybodol o'r peryglon posib. Mae delio gyda pheryglon drwy broses o asesu risg yn sgil hanfodol i Arweinydd Grwpiau Cerdded. Dim ond drwy brofiad ydi hi'n bosib datblygu'r lefel craffter sydd ei angen i wneud hyn yn iawn. Tra bod asesu risg yn broses ffurfiol i lawer o sefydliadau, mae o'n hanfodol sicrhau bod pawb yn deall bod asesu risg yn broses sydd i ddigwydd yn barhaus trwy gydol pob taith.

Mae angen i ymgeiswyr allu arwain a goruchwylio grwpiau am fwy nag un diwrnod ar y tro, ac mae gofyn iddyn nhw allu gweithio o safle canolog, hygyrch a chysgodol megis hostel neu faes gwersylla. Mae angen i ymgeiswyr fod yn ddigon cymwys hefyd i allu rheoli a goruchwylio grwpiau sy'n gwersylla mewn llefydd cysgodol o fewn cyrraedd hawdd i loches neu ffyrdd. Mae codi pebyll a defnyddio gwahanol fathau o stôf yn agweddau sy'n cael eu dysgu mewn cyd-destun ymarferol ar gwrs AGC ac mae disgwyl i ymgeiswyr ennill profiad personol o wersylla ar wahanol safleoedd gwersylla ffurfiol ac anffurfiol.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae rheoli grŵp a chyfrifoldebau'r Arweinydd Grwpiau Cerdded yn agweddau pwysig o'r maes llafur. Mae angen ymdrin ag agweddau ymarferol a theori'r maes llafur ac fe ddylai hyfforddwyr gyflwyno llawer o'r hyfforddiant drwy sesiynau ymarferol ar y mynydd.

Fe ddylai hyfforddwyr bwysleisio pwysigrwydd asesu lefel gallu'r grŵp wrth baratoi taith ar eu cyfer, gan fod hyn yn gyfle i ragweld, osgoi a pharatoi ar gyfer llawer iawn o broblemau. Mae angen dysgu ymgeiswyr ei bod hi'n bwysig, ac yn wir yn rhan hanfodol o'r broses cynllunio, i asesu nid yn unig gwendidau a chryfderau unigolion o fewn y grŵp, ond hefyd anghenion y grŵp fel uned ynddo'i hun.

Fe ddylai hyfforddwyr ddysgu ymgeiswyr sut i baratoi o flaen llaw - er enghraifft, y ffordd orau i gynllunio llwybr taith, lle i gael rhagolygon y tywydd a sut mae cwblhau ffurflenni caniatâd rhieni. Fe ddylai hyfforddwyr drafod hefyd y pwysigrwydd o gynnal asesiadau risg a sut mae galw am gymorth mewn argyfwng.

Fe ddylai hyfforddwyr ddysgu ymgeiswyr ynglŷn â materion amddiffyn plant sy'n gysylltiedig â gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed, a hynny er mwyn cyflwyno egwyddorion sylfaenol arfer da mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae angen hefyd gwneud ymgeiswyr yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â chodau ymarfer sefydliadol yn ymwneud, er enghraifft, a chyfiawnder a chyfle cyfartal pan fyddan nhw'n gweithio gyda grwpiau ar gyfer awdurdodau penodol.

Mae o'n syniad i ymarfer arwain grŵp mewn tywydd gwael neu dywyllwch. Mae cyflymder cerdded a hyder ymgeiswyr yn gallu bod yn wahanol mewn sefyllfaoedd o'r fath ac yn hynny o beth yn gallu adlewyrchu'r math o wahaniaethau sy'n nodweddiadol o grŵp cerdded mynydd.

Mae cwrs hyfforddi'n gyfle da i ymgeiswyr weld ac ymarfer gwahanol ddulliau arwain ac i drafod pa mor briodol ydi pob un i wahanol sefyllfaoedd. Mae angen rhoi cyfle hefyd i ymgeiswyr ddadansoddi sefyllfaoedd wrth iddyn nhw godi yn ystod sesiynau ymarferol ac i drin a thrafod ymarferion sy'n cynnwys elfennau arwain.

Mae angen i hyfforddwyr drafod gydag ymgeiswyr gwahanol ffyrdd o gynnal asesiad risg yn ystod y cyfnod paratoi a gwahanol ffyrdd o gofnodi cynlluniau gwaith. Mae o hefyd yn bwysig datblygu gallu ymgeiswyr i asesu risg yn y maes ac i wneud y penderfyniadau sydd eu hangen i reoli'r risg hwnnw wrth arwain grŵp. Mae llawer o ymgeiswyr yn gwneud hyn eisoes, ond heb feddwl amdano, ac mae trafod a darlunio'r broses yn ystod sesiynau ymarferol yn werthfawr o ran sicrhau dealltwriaeth ohoni.

Mae gwersylla yng nghyd-destun y cymhwyster AGC yn digwydd fel arfer mewn llefydd cysgodol o fewn cyrraedd hawdd ar droed i ffyrdd neu lefydd poblog. Mae gwersylla mewn llefydd nad ydyn nhw'n safleoedd pwrpasol yn gallu cael effaith andwyol ar yr amgylchedd o ganlyniad i sathru llystyfiant a llygru gyda sbwriel a gwastraff dynol. Mae angen felly bod yn ofalus, wrth ymgymryd â'r math yma o wersylla, i bwysleisio gofal dros yr amgylchedd yn gymaint â mwynhad personol.

Tra bod gwersylla 'anghysbell' y tu hwnt i gwmpas y maes llafur yma, mae angen ymdrin yn ymarferol â defnyddio gwersylloedd mewn llefydd hygyrch fel man cychwyn i daith. Fe ddylai hyn gynnwys dysgu sut i leoli a chodi pebyll a sut i ddefnyddio gwahanol fathau o stôf yn ddiogel. Fel a nodwyd eisoes, mae angen cadw at egwyddorion cyffredinol er mwyn gwneud y dysgu'n berthnasol i gymaint ag sy'n bosib o'r offer sydd ar gael. Mae o'n syniad gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio eu hoffer eu hunain er mwyn ychwanegu at y dewis sydd ar gael.

Mae angen i hyfforddwyr drafod egwyddorion sylfaenol trefniadaeth grwpiau yng nghyd-destun gwahanol fathau o lefydd aros dros nos. Mae angen trafod hylendid personol a grŵp yng nghyd-destun gwersylla, coginio a theithiau diwrnod. Mae angen rhoi sylw hefyd i dechnegau ac offer sy'n ychwanegu at gysur a diogelwch gwersylloedd dros nos.

Mae o'n bwysig iawn hysbysu ymgeiswyr o flaen llaw o unrhyw fwriad i gynnal hyfforddiant ymarferol ar ffurf gwersyll dros nos.

Nodiadau'r Aseswr

Mae angen i aseswyr asesu gallu ymgeiswyr i gynllunio teithiau a chynnal asesiadau risg syml. Mae hi'n briodol defnyddio gwahanol dechnegau i asesu gwahanol agweddau o'r gwaith, er enghraifft, creu sefyllfaoedd argyfwng syml ar y mynydd neu osod prawf ar bapur i'w gwblhau adref neu gyda'r nos.

Fe ddylid asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o wahanol ddulliau arwain. Mae angen i ymgeiswyr allu adnabod y dull y maen nhw'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio ac, wrth arwain grŵp, i allu barnu pa bryd y mae hi'n briodol iddyn nhw newid eu dull. Fe ddylai aseswyr roi cyfle i ymgeiswyr ddangos eu dealltwriaeth o reolaeth effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cerdded mynydd.

Mae rhai agweddau o reolaeth grŵp, er enghraifft, rheoli cyflymder y cerdded, rhoi cyfarwyddiadau a chyfathrebu, yn gymharol hawdd eu hasesu, fel yn wir mae dewis a pharatoi offer personol a llwybr taith ac ymateb i sefyllfaoedd argyfwng gosodedig. Fodd bynnag, mae angen asesu penderfyniadau sy'n delio â sefyllfaoedd annisgwyl drwy eu cymharu'n ofalus â'r dewisiadau eraill sydd ar gael. Mae defnyddio sefyllfaoedd o'r fath i roi hyfforddiant pellach a buddiol i ymgeiswyr yn arfer cyffredin.

Mae o'n anodd i'r sefyllfaoedd arwain sy'n cael eu darparu mewn asesiad fod yn rhai hollol ddilys. Dydi grŵp o ymgeiswyr sy'n cael eu hasesu ddim yn mynd i ymddwyn yn union fel grŵp o gerddwyr dibrofiad, ac eto mae angen pwysleisio na ddylid rhagdybio lefel gallu unrhyw unigolyn. Mae angen i aseswyr fod yn glir eu meddwl ynglŷn â pha agweddau o waith yr arweinydd sy'n bosib iddyn nhw ei asesu fel rhan o'r cwrs. Mae angen iddyn nhw ystyried yn ofalus y defnydd maen nhw'n ei wneud o sefyllfaoedd ffug ac fe ddylen nhw esbonio bob amser beth yn union sy'n cael ei asesu ar y pryd. Mae hunanwerthuso'n weithgaredd i'w gymeradwyo oherwydd bod llwyddiant y cynllun AGC yn dibynnu ar ymwybyddiaeth arweinwyr o'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain.

Fe ddylai aseswyr edrych yn ôl dros waith y diwrnod gydag ymgeiswyr, gan roi sylw arbennig i agweddau arwain. Bydd y sesiynau hanfodol yma'n gyfle i drafod a chymharu canfyddiadau pawb sy'n ymwneud â'r cwrs.

Bydd aseswyr yn edrych ar allu ymgeiswyr i adnabod a rheoli risg wrth gynllunio llwybr taith. Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng gwahanol beryglon a sut i ddelio'n briodol â nhw wrth weithio gyda grwpiau.

Mae angen i aseswyr asesu gallu ymgeiswyr i greu gwersyll dros nos sy'n gysurus ac yn ddiogel, a'u gallu i oruchwylio a rheoli grwpiau wrth wersylla mewn safleoedd gwersyll 'ffurfiol' ac 'anffurfiol'. Bydd llawer o Arweinwyr Grwpiau Cerdded yn cael eu cyflogi i reoli grwpiau ar alldeithiau gwersylla neu deithiau sy'n defnyddio safle gwersylla neu hostel fel man cychwyn i'w gweithgareddau, ac mae angen i aseswyr sicrhau bod gan ymgeiswyr y gallu i ymdrin ag agwedd yma'r maes llafur yn ymarferol ac yn ddeallus.

Fe all arwain yn y cyd-destun yma olygu dysgu crefft gwersylla a diogelwch sylfaenol i bobl eraill, yn arbennig felly yng nghyswllt defnyddio stôf i goginio.

Mae modd asesu agweddau rheolaeth 'y profiad dros nos' gyda phapur theori neu drafodaeth hefyd.

Mae o'n hynod o bwysig hysbysu ymgeiswyr mewn da bryd o unrhyw drefniadau i asesu'r agweddau yma'n ymarferol drwy gynnal gwersyll dros nos. Mae angen sicrhau cytundeb yr ymgeiswyr i gyd o flaen llaw.

3. Amgylchedd yr Ucheldir

Fe ddylai bod gan Arweinwyr Grwpiau Cerdded wybodaeth sylfaenol o amgylchedd yr ucheldir a dealltwriaeth o oblygiadau effaith unigolion a grwpiau arno. Mae'r math o wybodaeth gefndirol sy'n ddefnyddiol yn hyn o beth yn cynnwys gwybodaeth o blanhigion, bywyd gwyllt, daeareg, daearyddiaeth, hanes lleol, y tywydd a delio gyda gwastraff dynol. Mae angen i Arweinwyr Grwpiau Cerdded allu defnyddio eu gwybodaeth amgylcheddol i feithrin gwerthfawrogiad ehangach o'r amgylchedd ymhlith aelodau eu grŵp a thrwy hynny gyfoethogi'r daith.

Mae angen i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd a chydymffurfio â'r Côd Cefn Gwlad a chodau a chanllawiau arfer da cysylltiedig, a chadw effaith eu gweithgareddau ar amgylchedd yr ucheldir i leiafswm. Mae'n rhaid iddyn nhw werthfawrogi a bod yn ystyriol o faterion cysylltiedig â chadwraeth a'r gwahanol fathau o ddefnydd tir sydd i'w cael mewn ardaloedd ucheldir. Fe all y rhain gynnwys ffermio, coedwigaeth, casglu a chronni dŵr, pysgota, saethu grugieir, hela ceirw, gwylio adar a nifer o weithgareddau cysylltiedig eraill.

Mae angen i Arweinwyr Grwpiau Cerdded fod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth mynediad cyfredol a'r ffordd y mae hi'n effeithio ar gerdded mewn ardaloedd ucheldir ac ardaloedd dynodedig eraill. Fe ddylen nhw fod yn gyfarwydd â threfniadau a chyfyngiadau mynediad eu hardal leol ac yn gwybod lle i gael gwybodaeth ar fynediad i rannau eraill o'r wlad. Mae angen iddyn nhw fod yn gyfarwydd â'r wybodaeth sydd ar gael oddi wrth y Cynghorau Mynydda, cyrff cefn gwlad a chadwraeth, arweinlyfrau, mapiau a chyhoeddiadau eraill sydd ar gael i gynorthwyo ac addysgu pobl sydd am ymwneud ag amgylcheddau ucheldir.

Nodiadau'r Ymgeisydd

Ar y dechrau, dim ond ychydig o ddealltwriaeth fydd gan ymgeiswyr o ardaloedd ucheldir a'u hamgylchedd ac o effaith cerdded arnyn nhw. Fodd bynnag, fe ddylen nhw fod yn deall bod datblygu gwybodaeth o'r materion yma'n arwain at fwynhad llawnach o'r amgylchedd ac o'r cymhwyster AGC ac yn datblygu gwerthfawrogiad o sut i leihau'r effaith maen nhw'n ei gael. Bydd y wybodaeth yma'n meithrin gwerthfawrogiad dyfnach o'r gwahanol faterion sy'n gallu achosi gwrthdrawiad rhwng cerddwyr a defnyddwyr eraill yr ucheldir a chefn gwlad yn gyffredinol. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr a'u grwpiau i fwynhau eu taith yn well, yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr eraill ac yn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro.

Does dim disgwyl i ymgeiswyr fod â diddordeb ymhob agwedd o'r amgylchedd. Fodd bynnag, fe ddylai pob un geisio datblygu rhywfaint o arbenigedd mewn meysydd megis planhigion, bywyd gwyllt, daeareg, daearyddiaeth neu hanes lleol a meithrin gwerthfawrogiad cyffredinol o'r gweddill. Fe ddylai ymgeiswyr wybod hefyd lle i gael hyd i wybodaeth ar y gwahanol agweddau yma o'r amgylchedd.

Bwriad y Côd Cefn Gwlad a chanllawiau tebyg ydi lleihau effaith gweithgareddau hamdden ar yr amgylchedd a chymunedau cefn gwlad. Mae disgwyl i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â'r canllawiau yma gan eu bod nhw'n gosod patrwm o arfer da.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Mae'r amgylchedd, mynediad a chadwraeth yn faterion o bwys i bob Arweinydd Grwpiau Cerdded ac mae angen eu gwneud nhw'n rhan annatod o'u hyfforddiant. Mae angen cynnal sesiynau trafod a gwerthuso ar faterion o'r fath pan fydd esiamplau a sefyllfaoedd priodol yn dod i'r amlwg. Bydd yna gyfleoedd yn codi drwodd a thro i ehangu gorwelion ymgeiswyr yn y maes yma a'u gwneud nhw'n ymwybodol o'r ffordd y gall gwybodaeth o'r fath gyfoethogi profiad eu grwpiau. Mae trafod effaith ymgeiswyr a gweithgareddau grŵp ar yr amgylchedd yn ymarfer gwerthfawr - fe all trafod effaith y cwrs hyfforddi ei hun fod yn lle da i gychwyn. Mae angen tynnu sylw ymgeiswyr at ba mor hawdd ydi difrodi a llygru'r amgylchedd drwy ymddwyn yn amhriodol neu'n anystyriol, yn arbennig felly gydag amgylchedd megis amgylchedd yr ucheldir sydd eisoes yn dioddef tywydd eithafol.

Mae'n rhaid i hyfforddwyr fod yn gybyddus â'r ddeddfwriaeth mynediad cyfredol a gyda'i effaith ar gefn gwlad yn gyffredinol ac ar ardaloedd ucheldir yn benodol. Mae angen dysgu ymgeiswyr ynglŷn â lle mae cael gwybodaeth ar gytundebau neu gyfyngiadau mynediad unrhyw ardal y maen nhw am ymweld â hi. Mae angen amlinellu oblygiadau statws Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs), ac yng Ngogledd Iwerddon Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ASSIs), a'r effaith y gall ymwelwyr hamdden ei gael arnyn nhw. Mae angen ymdrin hefyd â'r ffordd orau i ddelio â gwastraff dynol yn yr awyr agored.

Nodiadau'r Aseswr

Mae modd asesu agwedd yma'r maes llafur gyda phapurau arholiad, drwy archwilio a thrafod cofnodion llyfr log, a thrwy holi cwestiynau yn ystod y cwrs. Mae mynediad, cadwraeth a rheoli grŵp yn greiddiol i sicrhau defnydd priodol o gefn gwlad. Mae'n rhaid i aseswyr fod yn barod i ohirio cymhwyso ymgeiswyr os ydyn nhw'n teimlo bod eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd materion yn ymwneud â mynediad, yr amgylchedd a chadwraeth yn ddiffygiol. Mae'n rhaid i aseswyr fod yn hyderus y bydd ymgeiswyr, drwy ymddwyn yn gyfrifol ac yn ystyriol o'r materion yma, yn gwneud eu gorau i osgoi gwrthdrawiad rhwng eu gweithgareddau eu hunain a gweithgareddau defnyddwyr eraill cefn gwlad a'r ucheldir.

Mae gwybod lle i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn hanfodol i gynllun unrhyw daith cerdded ac mae angen i aseswyr edrych ar allu ymgeiswyr yn hyn o beth. Fe ddylai aseswyr fod yn gallu cynnig hyfforddiant pellach lle mae hynny'n briodol.

4. Gwybodaeth Gefndirol

Nodiadau'r Ymgeisydd

Mae gofyn bod ymgeiswyr yn gallu cynorthwyo pobl ddibrofiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerdded mynydd. Mae angen iddyn nhw wybod am glybiau a sefydliadau cerdded mynydd a gallu cael gafael ar wybodaeth berthnasol. Fe ddylai arweinwyr fod â pheth gwybodaeth o le cerdded mynydd ym maes ehangach mynydda, ac o'i egwyddorion a'i draddodiadau. Mae dealltwriaeth o le mae cael gwybodaeth ar fynediad, cadwraeth a phynciau tebyg yn bwysig. Mae cylchgronau, papurau newydd a'r we yn ffynonellau gwybodaeth gyfredol defnyddiol iawn ar nifer fawr o agweddau'r maes llafur.

Nodiadau'r Hyfforddwr

Fe ddylai hyfforddwyr gyflwyno ymgeiswyr i ddewis eang o adnoddau er mwyn iddyn nhw allu ehangu eu dealltwriaeth o gerdded mynydd a phynciau cysylltiedig. Fe ddylen nhw hefyd gyflwyno ymgeiswyr i waith y Cynghorau Mynydda, y Byrddau Hyfforddi Mynydd a sut mae'r rhain yn cydweithio gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag ardaloedd ucheldir y DU ac Iwerddon. Mae darlithoedd a chyfeirio'n gyson at wybodaeth o'r fath yn ystod y cwrs yn ffordd dda o gyflawni hyn.

Nodiadau'r Aseswr

Mae angen edrych ar wybodaeth gyffredinol ymgeiswyr o gerdded mynydd a'i thraddodiadau, ei chlybiau a'i sefydliadau, amgylchedd yr ucheldir a gwaith cyrff cenedlaethol. Mae gwaith cartref, trafodaethau neu bapurau arholiad yn ffyrdd priodol o wneud hyn.

Atodiadau

Atodiad 1

Tirwedd y mae'r cymhwyster AGC yn addas ar ei gyfer

Mae'r cymhwyster AGC yn fodd i ennill a dangos gallu technegol fel Arweinydd Grwpiau Cerdded yn yr ardaloedd hynny o fewn y DU ac Iwerddon sy'n cydymffurfio â'r diffiniad technegol isod. Gyda bod tywydd ardaloedd o'r fath yn gallu bod yn eithafol mae angen rhywfaint o allu i fod yn hunangynhaliol, ac mae hyn i'w weld hefyd yn y maes llafur.

Mae tirwedd addas, yng nghyd-destun y cymhwyster AGC, yn golygu:

1. Tir agored, heb ei amaethu, sy'n uchel neu'n ddiarffordd ond heb fod yn fynyddig (e.e. ucheldir, gweundir, rhostir, tir cors, twyni neu fryniau).

Nodyn ar derminoleg: Mae modd dehongli pob un o'r enwau yma mewn sawl ffordd, â'r dehongliad hwnnw'n dibynnu ar bwy sy'n gwneud y dehongli (e.e. cerddwr, daearyddwr, botanegwr) neu ar yr arfer lleol - er enghraifft, mae bryn mewn ambell i le'n fynydd mewn lle arall. Mae angen i Arweinwyr Grwpiau Cerdded fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau yma a pheidio â chael eu camarwain gan enw. Cyn mentro i unrhyw ardal benodol mae angen edrych arni'n wrthrychol a gweld a ydi hi'n ardal y mae'r cymhwyster AGC yn briodol iddi.

2. Ardaloedd y mae eu ffiniau wedi eu diffinio gan nodweddion daearyddol neu ddynol amlwg, er enghraifft, ffyrdd (a ddim yn cynnwys ardaloedd heb ffiniau amlwg neu sy'n ffinio ar ardaloedd mynyddig).

Mae rhai ffiniau - waliau, ffensys, coedwigaeth a nodweddion cysylltiedig â dŵr er enghraifft - yn gallu newid. Mae'n rhaid i Arweinwyr Grwpiau Cerdded fod yn sicr fod nodweddion ffiniau'r ardal y maen nhw'n ei gerdded yn rhai dibynnol.

3. Ardaloedd diarffordd y mae modd dychwelyd ohonyn nhw i loches neu ffordd hygyrch o fewn ychydig oriau.

Fe ddylai Arweinwyr Grwpiau Cerdded a'u grwpiau allu dychwelyd o lwybr eu taith o fewn oddeutu tair awr (o gerdded ar gyflymder arferol y grŵp). Mae ffordd hygyrch yn ffordd y gall ambiwlans cyffredin ei defnyddio, ac mae lloches yn golygu lle sy'n cynnig cysgod a modd i alw am gymorth, er enghraifft, adeilad gyda ffôn neu signal ffôn symudol.

4. Ardaloedd lle nad oes angen symud ar lechweddau serth neu dir creigiog (yn fwriadol neu'n anfwriadol).

Mae Arweinwyr Grwpiau Cerdded yn cael eu hyfforddi a'u hasesu gan hyfforddwyr sy'n arbenigwyr ac wedi eu cymeradwyo gan y Byrddau Hyfforddi cenedlaethol. Mae'r hyfforddiant a'r asesu i ddigwydd mewn llefydd sy'n enghreifftiau da o dir addas. Fe ddylai unrhyw un sy'n ansicr o addasrwydd unrhyw leoliad penodol gysylltu â'i Fwrdd Hyfforddi cenedlaethol.

Atodiad 2

Diffiniad o ddiwrnod cerdded mynydd yng nghyd-destun y cymhwyster AGC

Conglfaen profiad pawb sydd am fod yn arweinydd ydi diwrnodau cerdded mynydd o ansawdd. Mae yna lawer o ffactorau fydd yn effeithio ar y profiad a'r wybodaeth y mae rhywun yn ei gael ar ddyddiau o'r fath, yn cynnwys natur y tywydd a'r tir a maint yr her gorfforol a meddyliol; yr hyn sy'n rheoli maint cyfraniad y ffactorau yma at aeddfedrwydd a datblygiad person fel arweinydd cyflawn ydi'r ffordd y maen nhw'n cael eu cyfuno a'u cyflwyno.

Er mwyn i daith gerdded gyfrannu mewn ffordd adeiladol at brofiad un sydd am fod yn Arweinydd Grwpiau Cerdded mae angen iddi fodloni rhai neu bob un o'r meini prawf canlynol:

- bod yr unigolyn i gyfrannu at y gwaith o gynllunio ac arwain y daith
- bod angen sgiliau cyfeiriannu
- bod y daith i'w chynnal ar dir perthnasol i'r cynllun (mae cerdded mynydd o bob math yn werthfawr, fodd bynnag, ac yn gallu cyfrif tuag at y cyfanswm dyddiau cerdded sydd ei angen i fynychu cwrs hyfforddiant neu asesu)
- bod gwybodaeth yr unigolyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r daith
- bod yr unigolyn wedi cael cyfle i ymarfer ei sgiliau
- bod sylw wedi ei roi i faterion diogelwch
- bod hyd y daith yn bedair awr neu fwy
- bod yna bosibilrwydd o dywydd garw

Mae ailadrodd teithiau cyfarwydd mewn amgylchiadau tebyg o ran tir a thywydd yn annhebyg o gyfrannu cymaint at brofiad cerdded mynydd person ag ydi mynd ar deithiau i lefydd newydd neu lai cyfarwydd. Yn yr un modd, mae mynd ar daith gerdded fel aelod o grŵp neu ddilyn cwrs dan arweinad rhywun arall yn anhebyg o fodloni'r meini prawf. Mae profiad o wahanol ardaloedd ac o wahanol fathau o dywydd yn allweddol i'r dasg o ddod yn Arweinydd Grwpiau Cerdded effeithiol.

Atodiad 3

Perthynas cymwysterau AGC, Arweinydd Mynydd a chymwysterau lleol â'i gilydd

Mae gofyn i ymgeiswyr sydd am ymuno â'r cynllun cymhwyso Arweinwyr Cerdded Mynydd fynd drwy'r broses sydd wedi ei hamlinellu yn y Prosbectws. Mae'r cymhwyster yn agored i bawb sy'n dymuno arwain grwpiau cerdded, p'un ai ydyn nhw'n gweithio gyda sefydliad yntau'n gweithio ar eu liwt eu hunain. Mae'r cynllun yn datblygu cymhwysedd unigolion ond fe all hefyd fod o fudd i arweinwyr sydd am ddarganfod sefydliadau ac unigolion fyddai'n fodlon cynnig cefnogaeth, cyngor a chymorth i'w gweithgareddau.

Mae llawer o ymgeiswyr yn debyg o fod yn gysylltiedig â gwahanol gyrff ieuenctid ac wedi derbyn hyfforddiant ac achrediad o ryw fath cyn dod ar gwrs AGC. Mae Hyfforddi Arweinwyr Mynydd yn dymuno cefnogi a chymeradwyo hyfforddiant lleol o'r fath, lle bo hynny'n briodol. Mae'r Byrddau Hyfforddi cenedlaethol wedi datblygu meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynlluniau lleol, p'un ai'n benodol i leoliad neu sefydliad arbennig, ac wedi rhoi cymeradwyaeth i nifer ohonyn nhw. Ymhob un o'r achosion yma mae'r ymgeisydd wedi amlinellu cwmpas y cynllun, ei amcanion, ei gynllun a sut mae o'n cael ei reoli. Elfen hanfodol o unrhyw gynllun, o safbwynt y Byrddau Hyfforddi, ydi'r gallu i ddarparu strwythur rheolaeth-ddiogelwch, trefniadau sicrhau ansawdd safonol, a chyngor sy'n dechnegol gymwys. Mae Hyfforddwyr Mynydd sydd â'r profiad a'r gymeradwyaeth briodol yn gymwys i gyflwyno cyrsiau Arweinydd Mynydd (AM) a chyrsiau Arweinydd Grwpiau Cerdded (AGC) ac felly, o bosib, ar gael i roi arweiniad i gynllun lleol o ran y safon sy'n ddisgwyliedig oddi wrth ei arweinwyr. Am fanylion pellach y patrymlun sydd gan y Byrddau Hyfforddi ar gyfer cynlluniau lleol, cysylltwch â'ch Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol (gweler Atodiad 8).

Bydd ymgeiswyr ar gyfer cynlluniau AGC, AM neu leol, p'un ai'n gynlluniau lleoliad neu sefydliad-penodol, yn aml yn symud o gynllun i gynllun wrth ddatblygu. Dyma grynodeb o berthynas y cynlluniau yma â'i gilydd:

Arweinwyr dan gynlluniau lleol lleoliad neu sefydliad-penodol, sydd am ennill cymhwyster AGC neu AM

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer cynllun AGC neu AM gofrestru ar gyfer y cynllun hwnnw, waeth beth fo'r cynlluniau eraill y maen nhw wedi cofrestru ar eu cyfer. Os oes gan Ddarparwr hyfforddiant yr ymgeisydd achrediad lleol a chymeradwyaeth AM neu AGC, yna mae'n bosib y bydd o wedi derbyn caniatâd y Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol i gyflwyno hyfforddiant AM neu AGC ar batrwm y cynllun lleol. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i wneud cais i gael eu heithrio o'r hyfforddiant os ydyn nhw'n credu bod eu hyfforddiant lleol ynghyd â'u profiad cerdded personol yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer asesiad AGC neu AM.

Ymgeiswyr ML (wedi eu cofrestru neu'n derbyn hyfforddiant) sydd am ennill cymhwyster AGC

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gofrestru ar gyfer y cynllun AGC, waeth beth fo'r cynlluniau eraill y maen nhw wedi cofrestru ar eu cyfer. Os ydi ymgeiswyr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun AM ac wedi mynychu cwrs hyfforddi, unwaith y byddan nhw wedi cofrestru ar gyfer y cynllun AGC ac ennill digon o brofiad i fodloni rhagofynion y cymhwyster, yna fe gân nhw symud yn syth i asesiad AGC. Yng nghyd-destun datblygu o un cynllun i'r llall, mae cwrs hyfforddi AM yn cyfrif fel cwrs hyfforddi AGC hefyd.

Ymgeiswyr AGC sydd am ennill cymhwyster AM

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gofrestru ar gyfer y cynllun AM, waeth beth fo'r cynlluniau eraill y maen nhw wedi cofrestru ar eu cyfer. Mae gan ymgeiswyr sydd wedi mynychu cwrs hyfforddi AGC, ac sydd wedi ennill y profiad angenrheidiol, ddau ddewis: naill ai mynychu cwrs hyfforddi AM neu wneud cais i gael eu heithrio o'r hyfforddiant. Yn yr achos olaf mi fyddai gofyn iddyn nhw ddangos

ystod eu profiad ac esbonio sut mae hwn ynghyd â'r hyfforddiant AGC yn eu paratoi ar gyfer asesiad AM. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion profiad yr asesiad AM cyn ei bod modd eu heithrio. Mae'n bosib y caiff cymhwyster AGC ei gyfri'n rhan o'r broses cymhwyso AM a bod dim ond angen i ymgeiswyr sydd wedi ei ennill ymgymryd â hyfforddiant mewn agweddau sy'n benodol i'r cynllun AM. Byddai cwrs o'r fath fel arfer yn para oddeutu pedwar diwrnod.

O ystyried y dewisiadau yma mae hi'n amlwg bod angen i ymgeiswyr ddewis y cynllun sydd fwyaf priodol i'w hanghenion nhw eu hunain. Tra bod cryn ymdrech wedi ei wneud i ganiatáu cydnabod cymhwysedd ar draws y cymwysterau, y dewis mwyaf effeithlon ydi ymgymryd ag un cynllun ar y tro. Fe ddylai ymgeiswyr a chyflogwyr sy'n dymuno cael eglurhad pellach gysylltu â'u Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol.

Mae Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y DU (HAMDU / MLTUK) wedi llunio dogfen dan yr enw Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Arweinwyr Mynydd ac Arweinwyr Grwpiau Cerdded. Cyhoeddwyd y ddogfen yn 2005 ac mae o ar gael bellach ar wefan HAMDU (www.mltuk.org). Prif amcan y ddogfen oedd egluro sut mae hyfforddiant ac achredu ar gyfer arweinwyr ar bob lefel, lleol neu genedlaethol, p'un ai'n wirfoddolwyr neu'n fynyddwyr proffesiynol, yn cael ei gyflwyno a'i reoli. Y gobaith ydi y bydd gweithredu fel hyn, mewn ffordd gynhwysol, yn galluogi sefydliadau sydd ar hyn o bryd yn gweithredu y tu allan i drefn gymwysterau HAMDU i ennill cydnabyddiaeth am y safonau ansawdd y maen nhw'n eu gosod.

Atodiad 4

Egwyddorion Gofal ac Asesu Risg

Er bod a wnelo Hyfforddi Arweinwyr Mynydd yn bennaf â chymhwysedd technegol, mae HAM yn cydnabod hefyd bod angen i bawb sy'n gyfrifol am ddarparu a chyflwyno gweithgareddau fod yn ystyriol o les y rhai sy'n eu gofal.

Mae hi'n amlwg, o edrych ar gofnodion damweiniau a digwyddiadau sy'n achosi pryder, bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau yma'n rhai a fyddai wedi bod yn bosib eu hosgoi, ac mai dyna'n wir y dylasai fod wedi digwydd. Mae damweiniau'n digwydd, rhan amlaf, o ganlyniad uniongyrchol i gynllunio a rheoli gwael ac asesiad risg annigonol. Un o brif achosion damweiniau ydi diffyg asesiad gwrthrychol o anghenion yr unigolion sydd i gymryd rhan - o ran natur y gweithgaredd, y dewis o leoliad a'r amgylchiadau o ran tywydd a thirwedd.

Er mwyn gwella ar yr agwedd yma, rydym yn argymell yn gryf i'r broses gynllunio lynu at yr egwyddorion canlynol:

Pam? Beth ydi pwrpas y gweithgaredd?

Pwy? O edrych ar y rhai fydd yn cymryd rhan, beth ydi eu profiad, oedran, gallu a'u diddordebau nhw, beth maen nhw'n gobeithio ei gyflawni ac a oes ganddyn nhw unrhyw anghenion penodol?

Beth? Ydi'r math o weithgaredd, a'r hyn y mae'n ei ofyn, yn briodol i anghenion hysbys y rhai sy'n cymryd rhan (h.y. yr anghenion gafodd eu hadnabod yn y cam diwethaf)?

Ble? Ydi'r lleoliad a llwybr y daith yn briodol i anghenion hysbys y rhai sy'n cymryd rhan?

Pa bryd? Mae angen llunio amserlen ar gyfer y gweithgaredd sy'n briodol ac yn hyblyg - rhag ofn bod angen ei newid hi oherwydd y tywydd, yr offer sydd ar gael neu anghenion neu allu'r rhai sy'n cymryd rhan.

Sut? Ar ôl ystyried y rhain i gyd a chyn dod i benderfyniad terfynol ynglŷn â'r trefniadau, mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i sut mae popeth i fod i ddigwydd, a hynny er mwyn cyflawni amcanion y gweithgaredd ac adnabod a delio'n briodol gydag unrhyw beryglon posib. Mae angen cynllunio llwybrau taith a gweithgareddau wrth gefn rhag ofn bod rhaid rhoi'r gorau i'r trefniadau gwreiddiol oherwydd yr amgylchiadau.

Mae gweithgareddau antur a her yn weithgareddau sy'n gallu bod yn beryglus. Mae gofalu am eich lles a'ch diogelwch eich hun a lles a diogelwch pobl eraill yn rhan o ddatblygiad personol y rhai sy'n cymryd rhan. Bydd arweiniad a chyfarwyddyd da'n cyfrannu'n sylweddol at y broses yma. Mae'n rhaid, serch hynny, sicrhau bod yna drefn diogelwch ffurfiol a digonol mewn lle bob amser.

Mae ymwybyddiaeth o berygl ac o beryglon posib yn rhywbeth sy'n tyfu gyda phrofiad. Mae angen i arweinwyr allu rhagweld y risg sydd ynghlwm â defnyddio amgylcheddau o fath arbennig. Bydd y risg wedi ei gadw i leiafswm os ydi arweinwyr yn gyfarwydd â'u grŵp a chryfderau, gwendidau, profiad a phersonoliaeth ei haelodau. Mae o'n bwysig deall bod asesu risg yn broses sydd i'w gynnal yn barhaus yn ystod y daith ac nid yn unig fel rhan o'r gwaith cynllunio.

Atodiad 5

Rhaglenni cyrsiau hyfforddi ac asesu AGC

Cyrsiau Hyfforddi

Mae angen i raglen cwrs hyfforddi ganolbwyntio ar gyflwyno elfennau mwyaf heriol y maes llafur. Mae angen iddo roi cyfle i ymgeiswyr gadarnhau ac adeiladu ar y sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes. Mae angen iddo hefyd adlewyrchu cyfrifoldeb deuol yr hyfforddwr – ar yr un llaw i anghenion yr ymgeiswyr ac ar y llall i ofynion y maes llafur.

Mae'n rhaid i bob cwrs hyfforddi dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol ac mae'n rhaid ei gyflwyno ar ffurf rhaglen hyblyg gydag o leiaf deg ar hugain (30) awr o amser cyswllt rhwng yr ymgeiswyr a'r staff hyfforddi. Mae cyrsiau i'w cael ar sawl ffurf ac mae croeso i ymgeiswyr ddewis un sy'n gweddu iddyn nhw, eu dymuniadau a'u hanghenion.

Fe all darparwyr gynnig sawl gwahanol math o raglen ac fe all y rheiny fod ar sawl gwahanol ffurf:

- cwrs o dri neu bedwar diwrnod ar ôl ei gilydd
- cwrs dros nifer o benwythnosau
- dau neu dri diwrnod ar ôl ei gilydd ynghyd â phenwythnos
- cyfres o sesiynau gyda'r nos ynghyd â bloc penodol o amser e.e. penwythnos

Mae'r profiad preswyl yn un gwerthfawr - mae yna amser i roi sylw manylach a mwy trylwyr i'r maes llafur ac mae o'n gyfle i ymgeiswyr ddysgu o gydweithio ac ymwneud â'i gilydd. Ar y llaw arall mae yna fanteision o gyflwyno'r rhaglen dros gyfres o benwythnosau - mae hyn yn caniatáu i ymgeiswyr gadarnhau eu sgiliau ac, yn ystod yr wythnos, i baratoi'n fwy trwyadl ar gyfer y penwythnos dilynol - fe all hyn gyd-fynd yn well hefyd â gofynion swydd ac oriau gwaith.

Mae'n rhaid cyflwyno'r cyrsiau mewn lleoliadau ac ardaloedd sydd â thirwedd addas, yn ôl diffiniad y cymhwyster. Yn ystod y cwrs hyfforddi bydd rhai o'r ymgeiswyr yn mentro oddi ar lwybrau a thirwedd cyfarwydd am y tro cyntaf ac mae angen i hyfforddwyr wneud y gorau o'r cyfle yma i gyflwyno'r hyn sydd ar gael yno. Yn ei hanfod, mae angen cyflwyno rhan helaethaf yr hyfforddiant fel rhan o daith a theithiau cerdded, yn hytrach na fel cyfres o sesiynau technegol unigol a phenodol.

Fe ddylai pwyslais pob cwrs fod ar yr ymarferol, gydag ymgeiswyr yn cael pob cyfle i ddysgu a defnyddio sgiliau newydd ac i drafod materion perthnasol allan yn yr awyr agored. Mae angen cyflwyno agweddau haniaethol (theori) y maes llafur mewn awyrgylch ac amgylchiadau addas i ddysgu. Os ydi'r cwrs yn troi o gwmpas trefniadau hunanarlwyo (self-catering) mae'n bwysig sicrhau nad ydi'r trefniadau paratoi bwyd ac ati ddim yn tarfu ar gyflwyniad y cwrs nac ar yr amser sy'n cael ei roi i ddysgu'r ymgeiswyr.

Mae pob darparwr yn penderfynu drosto'i hun sut i gyfuno elfennau'r maes llafur, a hynny mewn ffordd sy'n addas i amgylchiadau penodol y cwrs e.e. natur y grŵp, lleoliad y prif wersyll, pa mor hir mae'r diwrnod i fod, y tywydd ayb.

Er bod prif bwyslais unrhyw gwrs i fod ar hyfforddiant ymarferol yn y mynyddoedd mae angen hefyd rhoi amser i gynllunio ac adolygu gweithgareddau. Mae'r rhain yn elfennau hanfodol o'r broses *cynllunio-gwneud-adolygu* sydd mor ganolog i'r hyfforddiant - hebddo y byddai llawer o werth yr hyfforddiant yn cael ei golli.

Gan nad ydi'r cwrs hyfforddi ond yn gyfran fechan o'r amser y mae ymgeiswyr yn ei dreulio'n datblygu eu sgiliau a'u profiad, mae'n bwysig bod hyfforddwyr yn eu cynorthwyo i adnabod yr hyn y mae angen iddyn nhw ei ddysgu. Mae o'n bwysig hefyd rhoi adborth pryd a lle mae ei angen o. Mae modd gwneud hyn gydag adolygiadau beunyddiol (pob dydd) neu gofnod hyfforddiant personol - bydd y rhain yn cynorthwyo'r ymgeiswyr i edrych yn realistig ar eu cryfderau a'u gwendidau, a thrwy hynny i adnabod y profiadau ychwanegol sydd eu hangen arnyn nhw.

Dyma enghraifft o gylch gweithgaredd diwrnod cwrs hyfforddi Arweinwyr Grwpiau Cerdded:

Bore

- golwg ar y tywydd – y staff hyfforddi i drafod a dehongli rhagolygon y dydd ac yna i'w harddangos drwy gydol y cwrs fel bod modd gweld unrhyw batrwm wrth iddo ddatblygu
- cyflwyniad i'r sesiwn, awdit amgylcheddol y diwrnod (teithio, parcio, mynediad, defnyddwyr eraill, effaith y grŵp ar y tir)
- dosbarthu offer a chyfarpar, pacio

Yn ystod y dydd

- y sesiwn hyfforddiant – mae angen sicrhau bod y technegau sydd i'w dysgu'n cael eu cyflwyno mewn cyd-destun priodol ac yn cyfeirio at feysydd perthnasol yn y maes llafur; er y bydd pwyslais y sesiwn ar agwedd benodol, er enghraifft cyfeiriannu neu'r amgylchedd, mae angen cyflwyno natur gyfannol (holistic) y gwaith o arwain grŵp
- diwedd y sesiwn – teithio, adolygu, ymlacio

Gyda'r nos

- sesiynau o waith ymarferol a/neu haniaethol yn canolbwyntio ar agweddau penodol o'r maes llafur sy'n cynnig eu hunain i wers dosbarth, er enghraifft y tywydd

Cyrsiau Asesu

Mae angen i raglen cwrs asesu ganiatàu digon o amser i ymgeiswyr ddangos i'w haseswyr eu bod wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol ymhob elfen o'r maes llafur, a hynny heb fod dan bwysau gormodol. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu arwain grwpiau dros wahanol fathau o dir mewn tywydd da neu ddrwg.

Mae cwrs asesu'n gallu bod ar sawl ffurf ac fe ddylai'r Darparwr gyplysu gwahanol elfennau'r maes llafur yn ôl yr angen yn dibynnu ar, er enghraifft, lleoliad y prif wersyll, hyd y dydd a natur y tywydd.

Mae'n rhaid i bob cwrs dderbyn cymeradwyaeth Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol a chynnwys o leiaf deg ar hugain (30) awr o amser cyswllt rhwng y staff asesu a'r ymgeiswyr, gyda mwyafrif yr oriau'n cael eu rhoi i weithgareddau ymarferol.

Fe all darparwyr gynnig sawl gwahanol math o raglen ac fe all y rheiny fod ar sawl gwahanol ffurf:

- cwrs o dri neu bedwar diwrnod ar ôl ei gilydd
- cyfres o flociau amser e.e. dau benwythnos

Mae'n rhaid cyflwyno'r cyrsiau mewn lleoliadau ac ardaloedd gyda thirwedd sy'n addas, yn ôl diffiniad y cymhwyster, ac sy'n cynnig digon o her i'r ymgeiswyr. Mae angen cymryd agwedd cyfannol (holistic) lle bynnag y mae hynny'n bosib wrth asesu gwahanol bynciau'r maes llafur yn ystod y teithiau cerdded mynydd.

Mae angen trefnu'r tasgau asesu fel bod eu gofynion yn tyfu'n gynyddol, er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr arfer â'r patrwm asesu. Byddai rhywun yn argymell, er enghraifft, dechrau asesu cyfeiriannu mewn ardal gymharol hawdd yn hytrach na mynd yn syth i ardal anodd ei gyfeiriannu.

Gall aseswyr ddefnyddio tasgau ar bapur, tasgau ymchwil neu waith cartref i gael gwell syniad o'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei wybod. Mae modd defnyddio'r gwaith yma fel sail i holi pellach. Mae'n bosib hefyd gofyn i ymgeiswyr roi cyflwyniadau i'r grŵp ar destunau addas neu gwblhau papurau arholiad priodol. Bydd profion o'r fath fel arfer yn rhai canfyddol, hynny yw, yn canfod cryfderau a gwendidau'r ymgeiswyr, yn hytrach nag yn brofion 'pasio neu fethu'.

Mae angen i aseswyr gadw cofnod ysgrifenedig o berfformiad yr ymgeiswyr yn ystod pob diwrnod o'r asesiad, ac adolygu eu nodiadau'n feunyddiol. Fe ddylai aseswyr hefyd fod yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau llyfrau log a phapurau arholiad ysgrifenedig yr ymgeiswyr, ac o unrhyw agweddau sydd angen ail-ymweld â nhw yn ystod yr asesiad.

Dyma enghraifft o gylch gweithgaredd diwrnod cwrs asesu Arweinwyr Grwpiau Cerdded:

Bore

- golwg ar y tywydd - yr ymgeiswyr i drafod a dehongli rhagolygon y dydd, sydd i'w harddangos drwy gydol y cwrs er mwyn dilyn unrhyw batrwm a allai ddatblygu
- cyfarwyddo'r ymgeiswyr ynglŷn â'r sesiwn a'r lleoliad
- awdit amgylcheddol y diwrnod (teithio, parcio, mynediad, defnyddwyr eraill, effaith y grŵp ar y tir)

Yn ystod y dydd

- y sesiwn asesu – mae angen sicrhau bod y technegau sydd i'w hasesu wedi eu gosod mewn cyd-destun priodol, a bod yna gyfeirio at sgiliau'r arweinydd, yr amgylchedd a defnyddwyr eraill ymhob sesiwn lle mae hynny'n briodol
- diwedd y sesiwn - teithio, adborth i bob unigolyn, ymlacio

Gyda'r nos

- sesiynau asesu gwaith ymarferol a/neu haniaethol
- cyfarwyddo ar gyfer y sesiwn nesaf yn ôl yr angen

Oherwydd y pwyslais ar gyflwyno'r hyfforddiant mewn ffordd gyfannol, bydd rhai agweddau o'r maes llafur yn codi mewn mwy nag un sesiwn.

Atodiad 6

Canllawiau i Ddarparwyr

Mae gan y Byrddau Hyfforddi cenedlaethol drefn sefydlog ar gyfer cymeradwyo darparwyr cyrsiau AGC, p'un ai'n unigolion neu'n sefydliadau. Mae'r gymeradwyaeth yn benodol i gyrsiau AGC a ddim ar gyfer unrhyw weithgaredd arall. Mae cymeradwyaeth y Byrddau Hyfforddi'n seiliedig ar nifer o feini prawf.

Dalgylch

Mae'n rhaid i'r rhai sydd am fod yn ddarparwyr ddweud yn benodol beth ydi dalgylch (hynny yw, math) yr ymgeiswyr y mae eu hyfforddiant a'u hasesu'n darparu ar ei gyfer. Dydi cyrsiau AGC ddim fel arfer yn gyrsiau sydd wedi eu cyfyngu i unrhyw garfan neilltuol oherwydd bod cael cymysgedd dda o ymgeiswyr yn cynyddu amrywiaeth y profiad a'r syniadau sydd ar gael i'w trafod.

Rhaglen

Cyn belled â bod cyrsiau hyfforddi ac asesu AGC yn cynnig o leiaf deg ar hugain (30) awr o amser cyswllt, mae'r Byrddau Hyfforddi'n fodlon cymeradwyo sawl gwahanol fformat.

- Cyrsiau hyfforddi – e.e. cyfres o ddyddiau ar ôl ei gilydd, dau benwythnos o fewn cyfnod o dri mis ynghyd â sawl fformat arall
- Cyrsiau asesu - cyfres o ddyddiau ar ôl ei gilydd neu dau benwythnos o fewn cyfnod o ddim mwy nag un mis

Mae'n rhaid i'r cyrsiau hyfforddi a'r cyrsiau asesu sefyll ar wahân i gyrsiau eraill. Dydyn nhw ddim i'w 'cuddio' oddi mewn i gynllun hirach o hyfforddiant neu asesiad cyffredinol megis, er enghraifft, cwrs coleg deuddeg mis. Mae'n rhaid cofrestru ar gyfer y cymhwyster cyn mynychu'r cwrs hyfforddiant a chyfrifoldeb yr ymgeiswyr eu hunain ydi cofrestru. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Cwrs ar ddechrau'r cwrs ydi gwneud yn siŵr fod yr ymgeiswyr yn cwrdd â rhagofynion profiad y cwrs. Os oes yna broblem yn codi ynglŷn â'r profiad sydd wedi ei gofnodi mewn llyfr log mae'n rhaid datrys y rhain cyn gynted a bo modd yn ystod y cwrs. Os ydi Darparwr yn rhedeg cyrsiau hyfforddiant ac asesu ar yr un dyddiadau mae'n rhaid iddo ddarparu gwahanol Gyfarwyddwyr Cwrs ar gyfer pob cwrs.

Cymwysterau Staff.

Mae angen o leiaf Cymhwyster Hyfforddwr Mynydd neu gymhwyster Arweinydd Mynydd Rhyngwladol ar berson sydd am gyfarwyddo cwrs hyfforddiant AGC. Pan fydd rhywun yn gwneud cais i fod yn un o'r rhain bydd y Bwrdd Hyfforddi hefyd yn rhoi sylw i'w brofiad personol ac i lefel ei hyfforddiant. Mae'n rhaid i bawb sydd am fod yn Gyfarwyddwr Cwrs AGC fod â phrofiad sylweddol o gyflwyno cyrsiau'r Byrddau Hyfforddi.

Hyfforddwyr ac Aseswyr.

Mae angen o leiaf cymhwyster Arweinydd Mynydd ar bob un aelod o staff sy'n gweithio ar gyrsiau hyfforddi ac asesu AGC. Fe ddylen nhw fod yn bobl aeddfed gyda gwybodaeth dda o fynydda a cherdded mynydd sy'n arwain ac yn dysgu pobl eraill yn gyson ac yn aml. Dydi'r gofynion yma ddim yn ofynnol ar arbenigwyr sy'n cael eu gwahodd i'r cwrs i gyflwyno agweddau penodol, cyn belled â bod rhywun arall cymwys yn gyfrifol am yr ymgeiswyr yn ystod unrhyw sesiynau ymarferol.

Mae'n rhaid i Ddarparwyr a'u Cyfarwyddwyr Cwrs fynychu gweithdai a digwyddiadau perthnasol eraill eu Bwrdd Hyfforddi unwaith bob tair blynedd. Argymhellir hyn hefyd ar gyfer pob aelod staff sy'n cyflwyno hyfforddiant ac asesiadau AGC.

Cymhareb Staff ac Ymgeiswyr Cyrsiau AGC

Cyrsiau hyfforddiant AGC:	y nifer fwyaf - chwe ymgeisydd i bob hyfforddwr - 6:1
	y nifer leiaf – pedwar ymgeisydd i bob hyfforddwr – 4:1
Cyrsiau asesu AGC:	y nifer fwyaf – pedwar ymgeisydd i bob hyfforddwr – 4:1
	y nifer leiaf – dau ymgeisydd i bob hyfforddwr – 2:1

Os yn bosib, fe ddylai ymgeiswyr ddod dan oruchwyliaeth mwy nag un hyfforddwr neu aseswr ar bob cwrs. Hefyd, y mwyaf i gyd o ymgeiswyr sydd ar gwrs, gorau i gyd fydd y cyfnewid gwybodaeth, y syniadau a'r profiadau.

Safoni
Mae safoni darparwyr cyrsiau'n digwydd o leiaf unwaith pob tair blynedd.

Atodiad 7

Rhestr Ddarllen

Cyffredinol

Hillwalking – the official handbook of the Mountain Leader
and Walking Group Leader Schemes
(ar gael cyn hir yn y Gymraeg)……S Long, HAMDU / MLTUK Diweddariad 2004
Hillwalking – CD o ddarluniau o'r llawlyfr…….HAMDU / MLTUK
Mountaincraft and Leadership……..E Langmuir MLTE / MLTS Diweddariad 2004
Safety on Mountains – fideo a llyfryn……..y BMC / MLTB 2000
Water Safety for Walkers – DVD…….MCofS 2002
Gwefannau'r Byrddau Hyfforddi a'r Cynghorau Mynydda

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn berthnasol i agweddau penodol o'r maes llafur.

1. Cymhwysedd Technegol

Llawlyfr Alldaith (Expedition Guide)…….Gwobr Dug Caeredin
Land Navigation……..W Keay Gwobr Dug Caeredin 1994
Interactive Map Explorer – CDRom……Yr Arolwg Ordnans / Ornance Survey
Mountain Navigation……C MacNeil, J Cory-Wright a T Renfrew
Human Kinetics, 1997

2. Rheolaeth Grŵp a Chyfrifoldebau'r Arweinydd Grwpiau Cerdded

Adventure Education…….J C Miles ac S Priest Ventura 1990
Leading and Managing Groups in the Outdoors……..Ken Ogilvie IOL Diweddariad 2005
Managing Risk in Outdoor Activities……..C Haddock NZ Mtn Safety Council 1993
Medicine for Mountaineers……..Wilkinson
Medical Handbook for Walkers and Climbers……Peter Steele Constable & Robinson 1999
Remote Supervision Guidance Notes……..MLTE Ailargraffiad 2006
Safety, Risk and Adventure in Outdoor Activities…..B Barton PCP 2007
The Adventure Alternative……..C Mortlock Cicerone Diweddariad 2004

3. Amgylchedd yr Ucheldir

Heading for the Scottish Hills…….MCofS & Scottish Landowners Federation 1996
Hostile Habitats……...N Kempe M Wrightham SMT 2006
How to Shit in the Woods……...K Mayer Ten Speed Press 1994
Mountain Weather……...D Pedgley Cicerone Diweddariad 2006
NI Country Code…….Countryside Access and Activities Network
New Naturalists Series……Fontana / Collins
Outdoors with Young People –
A Leader's Guide to Outdoor Activities,
the Environment and Sustainability……G Cooper Russell House 1998
Y Côd Cefn Gwlad……..Yr Asiantaeth Cefn Gwlad
Weather for Hill Walkers and Climbers……..M Thomas Sutton Publishing 1997
Where to 'Go' in the Great Outdoors……..MCofS 1999
Wild Flowers – and where to find them in
Northern England in Acid Uplands,
Northern Limestone and Waterside Ways……..L Fallows Frances Lincoln Ltd 2004

4. Canllawiau Cyffredinol

Canllawiau Cenedlaethol/National Guidelines……..HAMDU / MLTUK Diweddariad 2005
The BMC – The First Fifty Years……..Wilson Diadem 1994
Classic Walks…….Wilson & Gilbert Diadem 1982
Mountain and Cave Rescue……...MRC MRC 2006
Cylchgronau'r Cynghorau Mynydda:
Summit……...y BMC
Scottish Mountaineer…….MCofS
Irish Mountain Log……MCI
Cylchgronau Mynydda a Cherdded Mynydd:
Climb, Climber, Trail, TGO,
Gwefannau'r Byrddau Hyfforddi cenedlaethol a'r Cynghorau Mynydda

Atodiad 8

Y Byrddau Hyfforddi Cenedlaethol, HAMDU / MLTUK a'r Cynghorau Mynydda

Prif amcan y pedwar Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol ydi hyrwyddo ymarfer da ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar y mynydd. Maen nhw'n gwneud hyn drwy gynlluniau hyfforddiant ffurfiol ar gyfer arweinwyr, yn cynnwys y cymwysterau Arweinydd Grwpiau Cerdded ac Arweinydd Mynydd (Haf a Gaeaf), a'r Cymhwyster Dringen Sengl ar gyfer dringwyr sy'n arwain ac yn goruchwylio grwpiau.

Mae Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y DU (HAMDU/MLTUK) yn hyrwyddo, yn cydgordio ac yn cynorthwyo gwaith y pedwar Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol. HAMDU sydd hefyd yn gyfrifol am y cynllun Hyfforddwr Mynydd a'r cymhwyster Arweinydd Mynydd Rhyngwladol.

Mae HAMDU'n gyfrifol am, ac yn gweinyddu bas data canolog o wybodaeth hyfforddiant mynydd cenedlaethol. Ynddo mae cofnodion cofrestru, hyfforddiant ac asesu, a manylion holl Arweinwyr Grwpiau Cerdded, y rhai sydd â Chymhwyster Dringen Sengl, Arweinwyr Mynydd (Haf a Gaeaf), Arweinwyr Mynydd Rhyngwladol a Hyfforddwyr Mynydda y DU.

Os oes gennych chi gwestiwn ynglŷn ag unrhyw un o'r cynlluniau hyfforddi yma cysylltwch â'ch Bwrdd Hyfforddi cenedlaethol neu HAMDU yn y cyfeiriadau canlynol.

Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y DU – Mountain Leader Training UK

HAMDU / MLTUK, Bwthyn Siabod, Capel Curig, Conwy. LL24 0ES
Ffôn: 01690 720272 E-bost: info@mltuk.org
Ffacs: 01690 720 248 Gwefan: www.mltuk.org

Y Byrddau Hyfforddi Cenedlaethol

Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru – Mountain Leader Training Wales
HAMC, Bwthyn Siabod, Capel Curig, Conwy. LL24 0ES
Ffôn: 01690 720272 E-bost: info@mltw.org
Ffacs: 01690 720 248 Gwefan: www.mltw.org

Mountain Leader Training England
MLTE, Bwthyn Siabod, Capel Curig, Conwy. LL24 0ES
Ffôn: 01690 720272 E-bost: info@mlte.org
Ffacs: 01690 720 248 Gwefan: www.mlte.org

Mountain Leader Training Northern Ireland
MLTNI, Tollymore Mountain Centre, Bryansford, Newcastle, Co Down BT33 0PT
Ffon: 028 4372 2158 E-bost: admin@tollymoremc.com
Ffacs: 028 4372 6155 Gwefan: www.tollymoremc.com

Mountain Leader Training Scotland
MLTS, Glenmore, Aviemore, Inverness-shire PH22 1QU.
Ffon: 01479 861248 E-bost: smltb@aol.com
Ffacs: 01479 861249 Gwefan: www.mltuk.org

Y Cynghorau Mynydda

Cyngor Mynydda Prydain – British Mountaineering Council
Y BMC, 177-179 Burton Road, Manceinion/Manchester M20 2BB
Ffôn: 0161 445 6111 E-bost: office@thebmc.co.uk
Ffacs: 0161 445 4500 Gwefan: www.thebmc.co.uk

Mountaineering Council of Ireland
MCI, Sport HQ, 13 Joyce Way, Park West Business Park, Dublin 12 Ireland
Ffôn: 00 353 1625 1115 E-bost: mci@eircom.net
Ffacs: 00 353 1625 1116 Gwefan: www.mountaineering.ie

Mountaineering Council of Scotland
MCofS, The Old Granary, West Mill Street, Perth PH1 5QP
Ffôn: 01738 638227 E-bost: info@mountaineering-scotland.co.uk
Ffacs: 01738 442095 www.mountaineering-scotland.co.uk

Atodiad 9

Patrymlun Papur Arholiad AGC ar yr Amgylchedd Fynyddig

1. Enwch dair ffynhonnell y byddech chi'n eu defnyddio i gael gwybodaeth ar amodau mynediad ardal oedd yn anghyfarwydd i chi. (3)

2. Un o'r achosion mwyaf cyffredin o wrthdaro rhwng defnyddwyr hamdden cefn gwlad a pherchnogion y tir ydi rheolaeth y defnyddwyr hamdden o'u cŵn. Pam bod hyn yn achos gwrthdaro? Pa gyngor fyddech chi'n ei roi ar y mater yma i'ch grŵp cerdded? (3)

3. Mae yna sawl rheswm dros osod cyfyngiadau dros dro ar fynediad i ardaloedd ucheldir. Nodwch ddau ohonyn nhw. (2)

4. Enwch asiantaethau cadwraeth y Llywodraeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. (4)

5. Enwch ddau gorff neu sefydliad sy'n defnyddio gwirfoddolwyr i gyflawni eu hamcanion cadwriaethol yn yr ucheldir. (2)

6. Enwch bedwar math o statws y gall y llywodraeth ei roi ar dir gwyllt er mwyn ceisio ei ddiogelu. (4)

7. Beth ydi ACT a beth ydi ei swyddogaeth o? (2)

8. Rhestrwch dri llwybr ucheldir sydd wedi eu herydu'n ddifrifol a disgrifiwch ffyrdd o reoli unrhyw erydu pellach yno. (3)

9. Disgrifiwch ffyrdd y gall Arweinwyr Grwpiau Cerdded gyfrannu'n adeiladol at gadw'r amgylchedd ar gyfer y dyfodol. (3)

10. Rydych chi'n trefnu gwersyll nos mewn lleoliad ucheldir neu ar rostir. Sut fyddech chi'n sicrhau'r effaith lleiaf posib ar yr amgylchedd? (3)

11. Pa broblemau sydd angen i chi eu hystyried wrth gynghori eich grŵp ar faterion glanweithdra a chael gwared ar wastraff dynol yn y mynyddoedd? (3)

12. Pa ddeunydd bioddiraddadwy (biodegradable) y byddech chi'n ei adael ar ucheldir, os o gwbl, a sut fyddech chi'n ei adael yno? (3)

13. Disgrifiwch y prif wahaniaethau yn y dirwedd pe byddech chi'n ymweld â mynyddoedd Prydain ac Iwerddon chwe mil o flynyddoedd yn ôl. (3)

14. Faint o flynyddoedd sydd wedi mynd heibio ers i'r Oes Rhew diwethaf ddod i ben? (1)
a. 10,000
b. 50,000
c. 100,000

15. Enwch a disgrifiwch tair nodwedd rewlifol y mae modd eu gweld ym mynyddoedd y DU. (3)

16. Rhestrwch tri math o graig ac, ar gyfer pob un, enwch ardal ucheldir yn y DU lle mae'r math hwnnw o graig yn dylanwadu'n sylweddol ar natur y dirwedd. (3)

17. Sut mae mawn yn ymffurfio? (2)

18. Enwch dri phlanhigyn sy'n gyffredin i ardaloedd ucheldir gwlyb neu gorsiog. (3)

19. Mae'r Dormaen Glasgoch neu Flodyn yr Esgimo (*Purple Saxifrage)* a'r Derig (*Mountain Avens)* yn blanhigion alpaidd o'r Arctig. Maen nhw'n tyfu ym mynyddoedd Ynysoedd Prydain er bod yr hinsawdd yn wahanol i hinsawdd alpaidd arferol. Pam eu bod nhw tyfu yma? (3)

20. Enwch ddau blanhigyn ucheldir sy'n dioddef o ganlyniad i or-bori. (2)

21. Enwch dri math o goeden sy'n frodorol i ucheldir Prydain ac Iwerddon. (3)

22. Enwch a disgrifiwch dau blanhigyn ucheldir y mae modd eu hadnabod o'u harogl. (2)

23. Enwch aderyn ucheldir sydd:
i) o bryd i'w gilydd yn hedfan yn wyneb i waered (1)
ii) yn bwyta adar eraill (1)
iii) yn rhywogaeth dan fygythiad (1)

24. Enwch ddau anifail sy'n byw yn ucheldir y DU ac yn newid eu lliw yn ôl adeg y flwyddyn. (2)

25. Enwch ymlusgiad, trychfilyn a microb y dylai'r cerddwr mynydd ochel rhagddyn nhw. (3)

Atodiad 10

Cymwysterau Mynydda ym Mhrydain

PROFIAD PERSONOL

CYMHWYSTER DRINGEN SENGL

CYMHWYSTER ARWEINYDD MYNYDD

CYMHWYSTER ARWEINYDD GRŴP CERDDED

CYMHWYSTER ARWEINYDD MYNYDD RHYNGWLADOL
Cymhwyster Arweinydd Mynydd

CYMHWYSTER ARWEINYDD MYNYDD GAEAF
Cymhwyster Arweinydd Mynydd

CYMHWYSTER HYFFORDDWR MYNYDD
Cymhwyster Arweinydd Mynydd

TYSTYSGRIF HYFFORDDWR MYNYDD
Cymhwyster AM Gaeaf a ChHM

TYWYSYDD IFMGA
Rhaglen Anwytho

DATBLYGIAD PERSONOL A PHROFFESIYNOL PARHAUS

Allwedd: Mae'r testun italig yn dynodi'r cymwysterau sydd eu hangen cyn dechrau'r cwrs
Y llinellau dotiau'n cyfleu llwybrau dewisol

D.S. Mae'r gofynion o ran profiad personol yn cynyddu wrth i safon y cymhwyster gynyddu

Y Gymdeithas Hyfforddi Arweinwyr Mynydd

Y gymdeithas ar gyfer arweinwyr dringo a cherdded.
Nod y GHAM ydi sicrhau cyfathrebu da rhwng arweinwyr mynydd a'r Byrddau Hyfforddi fel bod ei haelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau ym maes hyfforddiant mynydd. Un o amcanion y Gymdeithas ydi darparu hyfforddiant addas drwy weithdai a seminarau.

Aelodaeth
Mae Aelodaeth Lawn ar gael i Arweinwyr sydd wedi pasio cwrs asesu cymhwyster cenedlaethol un o Fyrddau Hyfforddi Mynydd y DU, h.y. y cymhwyster Dringen Sengl (DS/SPA), y cymhwyster Arweinydd Grwpiau Cerdded (AGC/WGL), y cymwysterau Arweinydd Mynydd ac Arweinydd Mynydd Gaeaf, a chymwysterau uwch.

Mae Aelodaeth Cysylltiol ar gael i Arweinwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyfer unrhyw un o'r cymwysterau uchod ond sydd eto i basio'r cwrs asesu.

Nodyn: mae'n rhaid i bob aelod o'r GHAM fod yn aelod o Gyngor Mynydda.

Yr hyn sydd i'w gael o fod yn aelod:
- Cyfle i siarad ag aelodau eraill, i rannu syniadau a phryderon ac i ddweud eich dweud mewn Fforwm bywiog
- Cyfle i bori drwy Lyfrgell o erthyglau amserol ac arbenigol
- E-lythyrau rheolaidd, llawn gwybodaeth
- Gweithdai Hyfforddiant Pellach a Digwyddiadau Cenedlaethol cysylltiedig
- Bwrdd Hysbysu ar gyfer arweinwyr sy'n chwilio am waith
- Blaenoriaeth wrth geisio gwybodaeth o'r ddesg gymorth
- Yswiriant a chyngor ar yswiriant ar gyfer gweithgareddau aelodau
- Prisiau gostyngol ar ddillad ac offer

A hefyd
Mae'r GHAM yn cael ei redeg o swyddfeydd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd ym Mwthyn Siabod, Capel Curig ac fe all aelodau'r Gymdeithas gysylltu'n uniongyrchol â Swyddog Technegol yno fydd, gyda chymorth aelodau staff eraill hynod o brofiadol yn y maes, yn gallu delio gyda'u holl gwestiynau.

Sut mae ymuno?
Fe allwch chi ymuno wrth adnewyddu eich aelodaeth gyda Chyngor Mynydda, neu ar y we, ar www.mlta.co.uk .

www.mlta.co.uk